

ECO'R WYDDFA

Rhif 53

TACHWEDD 1980

Pris: 12c

DIM LLE I "MODRYB ANGELINA" YN LLANBERIS


Y cwestiwn a glywir yn aml yn Llanberis y dyddiau yma ydyw, "Be' di hanas y Cwmni Drama? Ydan ni am gael perfformiad 'leni?" Yn wir mae ganddynt le i holi oherwydd ni pherfformiwyd drama gan y cwmni yn Llanberis ers dwy flynedd, ac mae'n ddrwg gan yr Eco gyhoeddi fod y posibiladau o berfformiad eleni eto yn ddu iawn.

Mae'r cwmni eisoes wedi hi'n ddyletswydd arnynt perfformio y gomedi 'Twyllo Modryb Angelina' ym Mhwllglas ger Rhuthun a chawsant hwyl eithriadol arni. Maent yn fwy na pharod i'w llwyfannu yn Llanberis. Beth felly, medda chi, ydi'r broblem? Yn syml iawn – diffyg lle. Ar ôl trefnu ers wythnosau i neilltuo Tachwedd 6 a 7 i Lanberis cafodd y cwmni wybod nad oedd neuadd yr ysgol i'w chael. Y rheswm am hyn yw fod arolygwyr ei mawrhydi yn yr ysgol ar y dyddiadau yna. Dywedodd pennaeth yr ysgol Mr J.H. Hughes fod croeso i'r cwmni ddefnyddio'r neuadd unrhyw amser. Yr amseroedd anghyfleus yw'r dyddiadau uchod am y rheswm a nodwyd. Ni ellid defnyddio'r neuadd 'chwaith ar Dachwedd 14 ac 17 nac ar Rgfy 5 a'r 8fed gan fod yr ysgol yn cael gwyliau achlysurol ar y dyddiadau yma.

Galwyd cyfarfod o'r aelodau yn ddiymdroi i drin a thrafod ac i geisio achub y sefyllfa. Fel Cwmni Drama Llanberis – 'roedd

berfformio yno. Ond ymhle? Beth am neuadd yr eglwys – yn anaddas oherwydd rheolau tân. Beth am theatr yr Oriel newydd? Ni fydd honno'n barod am fisoedd yn ôl pob tebyg. Beth am neuadd y pentref neu'r festrioedd? – 'does dim un yn addas i fedru derbyn y llwyfan. Mewn difrid, onid yw hi bellach yn bryd i bentref o faint Llanberis feddwl ag ystyried codi canolfan neu addasu'r hen un yn ddiymdroi cyn y bydd cymdeithasau fel y Gymdeithas Ddrama yn rhoi'r ffidil yn y to? Duw a'n helpo ni fel bro pan ddaw hi i hynny.

Eironi'r sefyllfa anffodus yma yw fod dyddiadur y Cwmni'r llawn. Maent i lwyfanu 'Twyllo Modryb Angelina' yn Llansannan, Penygroes, Llanrug, Caergybi, Llanegryn ger Tywyn, Llanfairpwll a'r Bala. Ond ddim yn Llanberis! Maent yn Llanrug nos lau, Tachwedd 27. Ys gwn i a ddaw pobl Llanbêr draw i'w cefnogi.



Mr Islwyn Jones, Pennaeth Ysgol Bethel, yn astudio'r newydd ddyfodiad pedair coes. Yn y llun mae Aled Jones (sy'n dal y rhaff) ac Andrew Kettle, sef mab Ty'n Rhos.

EGLWYS ARALL O FRO'R ECO YN 100 OED



Trowch i dudalen 13 am yr hanes. (Llun: Clifford Davies)

DIM LLE I YSGOL FEITHRIN YM MHENISARWAUN

Mae grŵp o famau o Benisa'rwaun (yn Gymry Cymraeg a di-Gymrae) yn chwilio am adeilad addas er mwyn cael dechrau ysgol feithrin yn y pentref. Mae'r merched eisoes wedi ffurfio pwyllgor, ac wedi cael cefnogaeth y Mudiad Ysgolion Meithrin. Ar y dechrau eu gobaith oedd cael defnyddio Neuadd yr Eglwys yn y pentref. 'Roedd cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cymdeithasol yn weddol hapus ynglŷn â chyflwr y neuadd, ac 'roedd y merched ar bwyllgor yr ysgol feithrin yn fodlon iawn i wneud unrhyw fân

waith oedd angen ei wneud. Ond gwrthodwyd cais y merched ac felly bydd raid iddynt chwilio am adeilad arall, neu anghofio'n gyfan gwbl am eu cynlluniau.

Mae sôn y dyddiau hyn fod yr awdurdodau am dorri ar Addysg Feithrin, ac os felly bydd pwysigrwydd Ysgolion Meithrin fel yr un y bwriedir ei dechrau ym Mhenisarwaun yn cynyddu, yn enwedig yn y Gymru Gymraeg. Pob llwyddiant felly i famau Penisarwaun yn eu hymdrechion, a gobeithio yn wir, y dônt o hyd i adeilad yn y dyfodol agos.

. . . OND LLE I'R LLO YM METHEL!

Arian, neu'n hytrach ei brinder yw pwnc llosg y dydd. Mae'r esgid fach yn gwasgu ym mhob agwedd o fywyd – gan gynnwys bywyd ysgol gynradd. Nid oes digon o arian ar gael ar gyfer defnyddiau angenrheidiol ac offer ysgol. Yn aml rhaid i'r ysgol aildrefnu ei chynlluniau ac hefyd ddibynnu fwyfwy ar ddyfeisgarwch y pennaeth, aelodau'r staff, y plant neu garedigion i godi arian.

Yn y dyddiau yma pan mae cymaint o drin a thrafod yr economi yn digwydd, mae rhywbeth sylfaenol, braf yn y syniad o ddyn yn rhoi anifail yn anrheg i rywun arall. Dyma'n union a wnaeth Mr D.N. Kettle, Ty'n Rhos, Seion, yn ddiweddar, sef rhoi cyfle i blant ysgol Bethel 'fabwysiadu' llo banw, pythefnos oed. Mae Andrew mab Mr Kettle yn yr ail safon yn yr ysgol, sef y dosbarth sydd yn mynd i fod yn bennaf gyfrifol am ddilyn hynt a helynt eu ffrind newydd. Bwriedir cadw'r llo ar fferm Ty'n Rhos ymysg ei linach o wartheg Aspen.

Dywedodd pennaeth yr ysgol, Mr Islwyn Jones, eu bod yn ddiolchgar iawn i Mr Kettle am ei syniad gwreiddiol ac am ei garedigrwydd tuag at yr ysgol mewn cyfnod anodd.

Mae'r posibiladau addysgiadol yn ddibendraw. Rhagwelir y bydd y plant yn ymweld â'r fferm yn rheolaidd ac y byddant yn dangos diddordeb mewn bywyd fferm yn gyffredinol. Fe fydd y plant hefyd yn gwneud gwaith cywaith fydd yn parhau am ddwy flynedd a hanner. Ar ddiwedd yr amser hwnnw, hynny ydyw, yr amser pan fydd safon dau eleni yn gadael yr ysgol, fe fydd y llo yn fuwch. Y gobaith yw y bydd ganddi lo ei hun a'r bwriad wedyn yw eu gwerthu fel buwch a llo. Daw hyn a hwb sylweddol i gronfa ysgol Bethel.

Os digwydd i'r llo fod yn un da, gellir ei arddangos mewn sioeau amaethyddol. Buasai teithiau eu llo ar hyd a lled y wlad o ddiddordeb mawr i'r plant. A chan mai diwedd y gân yw'r geiniog, buasau ennill gwobrau yn sicr o godi ei werth ariannol yn y man.

ECO'R WYDDFA

Rhif 53
TACHWEDD 1980

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

Dafydd Whiteside/Thomas, Bron y
Nant, Pontrhythallt, Llanrug,
(Caernarfon 3515).

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun.

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(Llanbeirs 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwynnaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Ellis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gwledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLEN: Meirion Jones,
Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, Penisarwaun.

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
27 TACHWEDD
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
erbyn 19 Tachwedd
os gwelwch yn dda.

Llythyr

At y Golygydd,

Anfonaf hanes y diweddar
Griffith R. Davies i chwi, gan
hyderu y bydd cornel bach iddo
yn Eco'r Wyddfa.
Ymddangosodd yr hanes
canlynol yn yr Herakd Cymraeg,
Mawrth 12, 1945. Colofn Glan
Rhyddallt 'Atgof a Chofnod'.
Torrwyd yr hanes allan a'i gadw
gan fy nhad, y diweddar R.G.
Roberts (Bobbie) Cae Canol,
Fachwen, a hynny mae'n debyg
am fod Griffith Davies yn ewythr
iddo, sef brawd i'w fam; ef hefyd
a ddysgodd fy nhad i chwarae'r
'harmoniw' a'i drwytho mewn
cerddoriaeth — bu yntau yn
organydd yn Fachwen am 43
mlynedd.

Yr oedd Gruffydd R. Davies yn
daid i Emlyn Davies, sydd
heddiw yn amlwg gyda'r BBC.

Yr eiddoch

Mrs Enid Jones
Bryn Gelli
16 Ffordd Coedmadog
Talsarn

HANES GRIFFITH R. DAVIES (O'r Herald)

Wedi ymadawiad William Parry,
Cyfeilydd Gorffwysfa i fyw i'r Clegir
y daeth Griffith R. Davies i fyw i
Llanberis o Frynrefail mi gredaf lle yr
oedd yn cyfeilio a bu'n cyfeilio yng
Nghapel Bethel MC, Waunfawr cyn
hynny, oherwydd yno y ganwyd ac y
magwyd ef.

Yn union wedi iddo ddod i
Llanberis yn 1895 y dewiswyd ef yn
organydd Capel Gorffwysfa.
Treuliodd ei holl oriau hamdden ar
hyd ei oes gyda chaniadaeth y cysegr,
eisteddfodau'r cylch, a'r corau plant
etc yn ddiplino a hynny heb feddwl
am dâl nac elwa dim oddi wrtho.

Ar noson waith, wedi iddo ddod
adref o'r Chwarel yn y gaeaf,
cyffredin fyddai gweled llond y
parlwr o blant y pentref yn cael eu
darparu ar gyfer rhyw eisteddfod
neu'i gilydd, llond y gegin hefyd yn
disgwyl eu tro hwythau, ac ychydig
eraill oddi tan y ffenestr o'r tu allan
yn codi pwyntiau.

Fel rheol byddai wedi gorffen
gyda'r plant cyn i'r cantorion mawr
gyrraedd. Yn 5 Charlotte Street yr
oedd yn byw. Weithiau treulid noson
lawen iawn yno pan ddeuai hogia'r
barics yno o'r chwarel, ac yn eu mysg
byddai Dic Môr, y canwr penillion
digri, ac anfarwol. Hefyd deuai
offerynwyr yno: Harri Thomas o'r
Nant, sef y Parch H. Thomas gyda'i
ffidil; Tom Owen, Castle View efo'r
clarinet. Bob Roberts gyda'r cornet,
a llu eraill. Dysgodd lawer i ganu'r
piano yn ei ddydd, a chrwydrodd
lawer gyda phartion yr "action song"
a hynny'n bur lwyddiannus, a chorau
heb sôn am gyfeilio mewn
cyngherddau etc.

Pan yn fachgen ieuanc yn y
Waunfawr digwyddai fod yn cyfeilio
mewn datganiad o 'Gantata'r Adar' o
waith y Dr Joseph Parry, a'r Doctor
ei hun yno'n gadeirydd, a chafodd
Griffith Davies uchel ganmoliaeth
ganddo am ei chwarae ac am drosi'r
Gantata i'r hen nodiant.

Bu Griffith R. Davies yn cyfeilio ar

rai achlysuron arbennig megis i'r côr
a ganai i'r diweddar Frenin George
V., pan oedd hwnnw'n Dduc York,
ac ar ymweliad â Chwarel Dinorwig.
Hefyd yr oedd yn banydd i'r
'Llanberis Orchestral Society' dan
arweiniad Mr J. Brwynog Jones, a'r
ddechrau'r ganrif bresennol.
Cymerodd ran hefyd mewn llawer
Cymanfa Ganu ym Môn ac Arfon o
dro i dro.

Fy marn i ydyw hyn: mai gwell
dysgu hen nodiant yn gyntaf i bawb
ac wedyn sol-ffa.

AP GLASLYN

Syr,

Tybed a fedr un o'ch darllenwyr
anfon llun John Owen (Ap
Glaslyn) i ni. Yr oedd Ap Glaslyn
yn daid i fy ngŵr. Mrs Mary Lloyd
Williams fu yn dweud hanes Ap
Glaslyn. Yr ydym yn ddiolchgar
iddi ac i chwithau os gellwch ein
helpu.

Yr Eiddoch,

(Mrs Angela Owen)
17 Edward Road
Parkstone, Poole
Dorset

CASETIAU I'R DEILLION

Annwyl Gyfeillion,

Diau eich bod wedi clywed y
gŵyn am y prinder deunydd ar
gaset yn Gymraeg, ar gyfer y
deillion a'r rhannol-ddall.
Bellach, trwy ymdrechion criw
bychan yng Nghaerfyrddin y
mae'r sefyllfa wedi gwella cryn
dipyn. Bwriad ein cynllun, o dan
nawdd y Cyngor Llyfrau
Cymraeg, yw adeiladu llyfrgell
amrywiol o gasetiau er mwyn eu
dosbarthu i'r deillion.

Recordiwyd nifer o awduron
yn darllen eu gwaith megis Eiga
Lewis Roberts, Islwyn Ffowc Elis,
Beti Hughes, Bryan Martin
Davies a T. Llew Jones. A
darllenwyd amryw o deitlau
poblogaidd eraill gan
wirfoddolwyr.

Dosberthir y casetiau o'r
ganolfan yng Nghaerfyrddin
trwy ddefnyddio cynllun rhad ac
am ddim i ddeillion gan y
Swyddfa Bost. Erbyn hyn y mae
rhai deillion yma a thraw wedi
dod i wybod am ein Gwasanaeth
ond caredm roi mwy o
hysbysrwydd iddo, er mwyn
cyrraedd deillion ymhob rhan o
Gymru nad ydynt eto yn gwybod
amdano.

Os oes gennych chi aelod o'r
teulu neu gyfaill a fyddai'n hoffi
derbyn ein casetiau, a wnewch
chi ddweud wrtho-wrthi
amdanom a dod i gysylltiad â ni.
Diolch yn fawr.

Yr eiddoch yn gywir,

Rhian M. Evans
Llyfrgell Dyfed,
Stryd San Pedr,
Caerfyrddin,
Dyfed.

RHAGOR AM Y DIWEDDAR R.E. JONES

Annwyl Olygydd,

Yn Eco'r Wyddfa mis Medi mi
'roeddech yn sôn am yr Henadur
R.E. Jones, Llanberis. 'Roedd fy
nhaid Robert Davies,
Pen-y-Graig, Llanberis a'm tad
John Davies, Water St. Llanberis
yn gweithio iddo fel Teiliwr ac
'rwyf yn cofio un arall sef Harry
Morrus, Bethesda St. Llanberis.
Dyma lun ohonynt. R.E. Jones a
Mrs Jones yn nrws y ffyrnt ac
'rwyf yn meddwl mai merch R.E.
Jones sydd yn y drws arall.



Ychydig iawn o gof sydd gennyf
ohono ond 'rwyf yn ei gofio yn
dwad i gapel y Bedyddwyr.

'Rwyf yn edrych ymlaen bob
mis am Eco'r Wyddfa. 'Roeddwn
yn edrych ar lun Carnifal Llanrug
a gweld fy llun ynddo.

'Rwyf wedi byw yn Llanberis ac
yn Pandy Pontrhythallt ond wedi
gadael ers tua 36 mlynedd.

Yr eiddoch yn gywir,

(Mrs) Mair Roberts
23 Harrison Way,
Lydney,
Swydd Gaerloyw

LLYFRGELL DRAMÂU

Annwyl Olygydd,

Hoffwn dynnu sylw eich
darllenwyr at y ffaith bod
gwasanaeth llyfrgell dramâu
Cymraeg ar gael yng Nghlwyd.
Mae'r llyfrgell, sydd yn cynnwys
160 o ddramâu byrion a 39 o
ddramâu hir, wedi ei leoli yn
swyddfa Cyngor Gwasanaeth
Gwirfoddol Clwyd, Ffordd yr
Orsaf, Rhuthun, Clwyd. Gellir
prynu copiau o ddramâu yn
ogystal â'u benthyg i'w
perfformio a'u darllen. Mae
manyion o'r telerau ar gael ac
mae amryw o gwmnïau yn
defnyddio'r gwasanaeth post.

Mewn dyddiau pan yw pobl yn
ystyried dirywiad yr iaith
Gymraeg mae'n rhaid cydnabod
fod gwasanaeth fel hwn yn hwb
i'r iaith, trwy ddod â phobl at ei
gilydd i drafod, darllen a
pherfformio dramâu yn yr iaith
Gymraeg. Fe fyddai'n hwb i'r
iaith pe byddai mwy o bapurau
bro a chymdeithasau eraill yn

(Parhad tud. 3)

LLYTHYRAU (Parhad o dud. 2)
gwneud ymdrech i sefydlu
cwmnïau dramâu yn eu gwahanol
ardaloedd.

Yr eiddoch yn gywir,
Charles A. Hogg,
Prif Swyddog,
Cyngor Gwasanaethau
Gwirfoddol Clwyd.

NAWDD CYMDEITHASOL - NEWIDIADAU

Annwyl Olygydd

O ganlyniad i broblemau
diweithdra, chwyddiant ysol ac
economi sy'n dirywio y mae nifer
cynyddol o bobl yn gorfod dod i
ddibynnu yn rhannol neu'n gyfan
gwbl ar nawdd cymdeithasol. Ym
mis Tachwedd gwelir newidiadau
mawr yn digwydd yn y Cynllun
Nawdd Cymdeithasol. Effeithir ar
gymwysterau pobl i dderbyn y
nawdd a hefyd ar y swm o arian a
dderbyniant. Bydd mwy o bobl yn
gorfod dibynnu ar Fudd-dal Atodol
(Supplementary Benefit). Felly sut
gewch chi eich effeithio? A beth a
olyga i Olgedd Cymru yn
gyffredinol?

I ateb rhai o'r cwestiynau hyn
cynhelir gweithdy undydd trwy
gyfrwng y Saesneg yn Neuadd y
Dref, y Rhyl, ddydd Sadwrn,
Tachwedd 1af, 1980 o 11 hyd 5 y
nos. Pwrpas cyntaf y gweithdy
yw ceisio egluro'r prif
newidiadau yng nghyfraith y
Cynllun Nawdd Cymdeithasol
a'r modd y gweithredir ef. Yn
bwysicach trafodir goblygiadau'r
newidiadau hyn. Yn yr ail le ceir
sgwrs yn dangos pa wasanaethau
sydd yn bod eisoes i sicrhau bod
ymgeiswyr yn derbyn yn llawn yr
hyn y mae ganddynt hawl iddo.
Gyda hyn yn gefndir y gobaith
yw y gellir llunio cynllun i geisio
hybu ac annog pobl i gychwyn
Canolfannau Hawliau Lles
(Welfare Rights Centres) ledled
Gogledd Cymru. Bydd yn bwysig
i grwpiau tebyg gadw cysylltiad
hefo grwpiau a ffurfiwyd eisoes a
hefyd unigolion sydd â
diddordeb yn y maes. Gellid
cynnal cyfarfodydd er mwyn eu
hysbysu ynglŷn ag unrhyw
ddatblygiaidau.

Fe'ch gwahoddir chi yn
gynnes i'r cyfarfod hwn ac efallai
y gellwch sôn wrth unrhyw un
arall y tybiech y byddai o
ddiddordeb iddynt. Anfonwyd
gwahoddiadau i undebau lafur,
cyrff gwirfoddol, y pleidiau
gwleidyddol a chyrrff statudol.

Diolch yn fawr.

Yn gywir iawn,
Canolfan Hybu Gwaith Gogledd
Cymru.

AR WERTH

Beic Hofan, 3 gêr i eneth o 13 i
fyny. Beic i Hogyn neu Hogan,
3 gêr o 10 i fyny; Beic Hogan, 0
8 i 10. Beic Hogyn o 8 i 10.

Metal Detector - C-scope
TR80

Ymholer â:
Y FELINHELI 670 861

WAUNFAWR

SEFYDLIAD Y MERCHED -
Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref o'r
Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys, nos
lau, Hydref 2, gyda Mrs C.A. Jones yn
llywyddu. Croesawodd Mrs Roberts,
Mrs Gwen Jones a Mrs Betty Hughes
fel ymwelwyr i'r Sefydliad. Croesawodd
Mrs Parry Williams yn ôl ar ôl ei gwaeledd, a mynegodd ei
balchter fod Mrs Morgan Jones yn
gwella. Dymunodd siwrnai ddai Mrs
Katie Jones a'i gŵr, sydd yn mynd ar
ymweliad, â'u merch i Ganada. Llongyfarchodd
aelodau'r Eglwys ar lwyddiant yr ywthnos dathlu
canmlwyddiant St Ioan. Y wraig
wadd am y noson oedd Miss Matt
Pritchard. Cafwyd sgwrs ddiddorol
gyda sleidiau ar ei hymweliad â
Chanada. Diolchodd Mrs Alice
Johnstone iddi. Enillodd Mrs C.A.
Jones y raffl a Mrs Mayhall a
gyflwynodd y blodau ar fwrdd y
llywydd. Cynhelir Noson Lawen gan
Sefydliadau y Merched yn Neuadd yr
Ysgol, Penygroes, nos Wener,
Tachwedd 14. Mynediad am ddim.
Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r
Sefydliad sef y Cyfarfod Blyneddol,
nos lau, Tachwedd 6 yn Neuadd yr
Eglwys.

LLONGYFARCHIADAU - I Delyth Ann
Williams, Coed Gwydryn ar ddathlu
ei phen-blwydd yn un ar hugain.

GENEDIGAETH - Llongyfarchiadau i
Steven a Carys Jones, Saron Wen ar
enedigaeth merch - Siân, chwaer i
Llŷr.

YN YR YSBYTY - Drwg gennym
ddeal bod Nan Wyn Jones, Tan y
Fron yn yr ysbty. Hefyd fe syrthiodd
Mrs Evans, Manchester House yn y tŷ
a thorri ei choes, ac aethpwyd a hi i'r
ysbty. Cyfarfu Gareth Griffiths, 11
Bro Waun â damwain a thorrodd
yntau ei goes. Anfonwn ein cofion
cynhesaf at y tri, gan ddymuno
gwellhad buan iddynt.

PROFEDIGAETHAU -
Cyddymdeimlwn â Mrs Edith Ellis, Min
y Nant, Mrs Arianwen Thomas, Bro
Waun a Mr Gwilym Madoc Jones,
Bro Waun ar golli eu chwaer sef Mrs
O.R. Parry, Cricieth. Cyddymdeimlir
hefyd â Mrs Olwen Owen, 18 Tref
Eilian ar golli ei chwaer, Meira Jones
o Bwlheli.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mrs Helen
Jones, 7 Dôl Erddi, ddiolch yn gynnes
iawn i bobl yr ardal am y
llongyfarchiadau a'r rhoddion a
roddwyd i'w mab Llifton Gwynedd
Jones ar ei lwyddiant yn yr
arholiadau i gael mynediad i Goleg y
Brifysgol, Bangor.

Dymuna Mr a Mrs Arwel Lloyd,
(Arwel a Gwenno) 2 Eilian Terrace,



Gwenno Owen ac Arwel Lloyd o
Benygroes ar achlysur eu priodas.
Mae Gwenno yn un o werthwyr
ffyddlon yr Eco. Ein dymuniadau
gorau i'r ddau.

ddiolch i bawb am eu rhoddion a'u
dymuniadau da ar achlysur eu
priodas.

EISTEDDFOD ARDAL Y WAUNFAWR
- Cynhelir yr Eisteddfod uchod yng
Nghapel MC Croesywaun, ddydd
Sadwrn, Tachwedd 8. Bydd cyfarfod
y prynhawn yn dechrau am un o'r
gloch, a chyfarfod yr hwyr am 5.30.
Ysgrifennydd yr Eisteddfod yw Mrs
Rose Ann Hughes, 15 Tref Eilian,
(ffôn 519).

NEUADD Y PENTREF - Mae'r
pwyllgor wedi cytuno ar eu
cynlluniau terfynol ac fe gyflwynir y
rhain i gyfarfod cyhoeddus yn
neuadd yr eglwys ar nos Fercher,
Tachwedd 12 am 7.30.

Bydd y pwyllgor yn cyflwyno eu
argymhellion, a gofynnir am sêl
bendith y pentref. Os mai'r
penderfyniad fydd bwrw 'mlaen a
chodi neuadd, yna bydd y pwyllgor
yn amlinellu nifer o gynlluniau y
maent wedi'u trafod ar sut y gellid
codi'r arian angenrheidiol.

PLAID CYMRU - Aeth nifer o
aelodau'r gangen i Bort Talbot yn
ddiweddari ymunog gyda gorymdaith
o dros fil o bol i alw am fwy o waith i
Gymru. Cytunwyd ar raglen y
flwyddyn 80-81. Bydd yn cynnwys y
Ffair Nadolig ar nos Wener, Rhagfyr
5, trafodaeth ddigwyddiadau'r
gynhadledd flynyddol; noson lawen;
dadl wleidyddol; cawl a chân; cwis a
ffug-steddfod gyda changhennau
eraill; taith gerdded a bariciw.
Gwahoddir unrhyw un sydd eisiau
ymuno i gysylltu gyda Keith Owen, yr
ysgrifennydd aelodaeth, neu unrhyw
aelod o'r pwyllgor.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd
cyfarfod cyntaf y tymor newydd nos
lau, Medi 25 yn Neuadd yr Eglwys.
Croesawyd yr aelodau gan y llywydd,
Mrs Rhian Ellis, a chyflwynodd y gŵr
gwadd, y Dr Derec Llwyd Morgan.
Diolchodd Mrs mMary Vaughan
Jones i Dr Morgan am sgwrs
ddiddorol a hwyliog ar y testun
'Merched a Rhyw Adeg y Diwygiad'.

Enillwyd y raffl (a roddwyd gan Mrs
Bet Hughes) gan Mrs Nan
Hughes-Roberts. Mrs Glenys Jones a
Mrs Irene Roberts fu yn gofalu am y
te.

Mae'r cyfarfod nesaf i'w gynnal
nos lau, Hydref 30 yn Neuadd yr
Eglwys pryd y cafwyd noson yng
nghwmni Madam Sera. Fe drefnir
cystadleuaeth ar y testun 'Calan
Gaeaf' ar gyfer y cyfarfod yma, a
bydd casgliad (yr elw at yr henoed)
yn ystod y cyfarfod.

CINIO NADOLIG - Bydd cinio Nadolig
Merched y Wawr yng ngwesty'r
Foelas, Llanrug nos lau, Tachwedd
27. Rhagor o fanylion gan Mrs Olwen
Williams, Llidiart Gwyn, neu Mrs
Llinos Cadwaladr, 3 Glyn Afon.

CLWB CANT - Awst. Gwyn Davies -
£8; Dafydd Iwan - £3.50; Mrs
Mwynwen Jones, £2.00.

Medi: Gareth Jones - £8; Mrs Mary
Davies: £3.50, Mrs Gwenarys Jones,
£2.00.

Hydref: Marilyn Roberts - £8. Nan
Huws Roberts, £3.50. Irene Rob£2.

MEITHRIN

Cynhaliwyd cyfarfod ddiwedd
Medi gan Fudiad Ysgolion
Meithrin, rhanbarth Arfon yn
ysgol Pendalar, Caernarfon.

Cafwyd anerchiad gan Margaret
Bird, cynhyrchydd rhaglenni
radio i blant, fel 'Un, Dau, Tri'.
Eglurodd sut yr aethai o gwmpas
y gwaith o ddewis testunau a
chaneuon ar gyfer plant o
gwmpas y pump oed.

Paratowyd paned a chacennau
blasus gan aelodau o gylch
Caernarfon.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar
Dachwedd 13 yn ysgol y
Garnedd, Bangor, pryd y ceir
anerchiad gan Jane Richards,
athrawes Babanod Porthaethwy.

BORE COFFI

Bydd Pwyllgor Merched
Arfon o Blaid Cymru yn
cynnal Bore Coffi yn yr
Ystafell uwchben y llyfrgell,
Allt Pafiliwn, Caernarfon,
dydd Sadwrn, Tachwedd 22 o
10.30 hyd 12 o'r gloch. Bydd
yno fyrdau gwerthu bwyd,
cacennau ac anrhegion a
hefyd cynhelir raffl.

Croeso cynnes i bawb.


GOLAU AR BETHAU

Ym mhwyllgor cyllid Cyngor
Bwrdeistref Arfon ar Hydref 9
penderfynwyd derbyn
argymhellion y Pwyllgor
Datblygu a Mwynderau ynglŷn â
goleuadau cyhoeddus mewn
ardaloedd gwledig.

Argymhellwyd bod y
dyranniad o £10,000 ar gyfer
adnewyddu goleuadau
cyhoeddus mewn ardaloedd
gwledig i'w ddosbarthu fel a
ganlyn.

Nantlle 2,700, Seion 600,
Caeathro 1260 a Llanrug 1650 er
mwyn cwblhau. Waunfawr 300,
Bontnewydd 300. Tregarth a
Mynydd Llandegai 3190.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

DEINIOLEN

DIOLCH – Dymuna Carys Williams, 11 High St., ddiolch i'w ffrindiau, teulu a phobl yr ardal am y cardiau ac anrhegion a'r arian a dderbyniodd yn ystod ei hymwelïad â'r ysbyty yn ddiweddar.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd pwyllgor o'r gangen yn ystafell y Seindorf, nos Lun, Hydref 20. Penderfynwyd cynnal pwyllgor blynyddol y gangen yn ystafell y 'Bandroom', nos Fawrth, Tachwedd 11 am 7 o'r gloch. Taer erfynnir am bresenoldeb yr aelodau yn y cyfarfod hwn. Clwb Cant mis Hydref, rhif 16: £15 Mrs Meira Jones, Pentre Helen. Rhif 118 £10. Cynghorydd Jacob James, Regent House.

DIOLCHIADAU – Dymuna Helen, Caradog a Gwilym ddiolch yn fawr i bawb am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu tad, Mr R.J. Thomas, 2 Bron Helen, Clwtybont. Diolch am y blodau, llythyrau, cardiau a rhoddion a dderbyniwyd. Diolch am y blodau, llythyrau, cardiau a rhoddion a dderbyniwyd. Diolch arbennig i'r meddygon teulu a meddygol a gweinyddesau Ward Dwyfor ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

Dymuna Mr Robert Williams, 4 Tai Caradog, a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd tuag atynt ar golli mam Mr Williams yn ddiweddar. Gwerthfawrogwyd yn neilltuol y rhoddion a dderbyniwyd ganddynt tuag at Gronfa Ymchwil i'r Cancr, a'u galluogodd i anfon £22 i'r Gronfa honno.

Dymuna Marion Williams, Arfon House ddiolch i'w theulu, ffrindiau, cymdogion ac aelodau'r Seindorf am y cardiau a'r anrhegion a

dderbyniodd yn ystod ei hymwelïad â'r ysbyty yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Lun, Medi 15. Llywyddwyd y cyfarfod yn hynod o ddeheuig gan y llywydd newydd, Mrs Megan Morris. Croesawodd yr holl aelodau gan roi croeso arbennig i Miss Priscie Roberts llywydd cyntaf y gangen a fu'n absennol o'r cyfarfodydd am amser maith oherwydd anhwylder. Anfonwyd cofion at yr holl aelodau sydd yn wael. Llongyfarchwyd y plant a fu'n llwyddiannus mewn arholiadau a llongyfarchwyd Mrs Beryl Hughes ar briodas y ferch. Croesawyd gwetai'r noson sef Mr Gwilym Owen, HTV a cafwyd noson hynod o ddiddorol ganddo yn sôn am ei brofiadau helaeth yn ei waith fel gohebydd a chynhyrchydd rhaglenni teledu. Talwyd diolchiadau cynnes iawn i Mr Owen gan Mrs Margaret Griffith. Mwynhawyd paned o de a bisgedi a drefnwyd gan Mrs Gwladys Jones, Mrs Margaret Thomas, Mrs Medwen Griffiths a Mrs Gwen Hughes. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Dilys Hughes ac fe'i henillwyd gan Miss Kathleen Jones.

Trefnodd Mrs Gwen Hughes a Mrs Medwen Griffiths i holl aelodau Merched y Wawr fynd i Theatr Gwynedd i weld Bugeilio'r Gwenith Gwyn. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn a mawr yw'n diolch i Gwen a Medwen am drefnu gwibdatih mor bleserus inni.

DIOLCH – Hoffai Gwyn ac Eleri Morris a'r plant ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd ar eu hymadawiad i Edmonton, Canada.

BETHEL

GWASANAETH DIOLCHGARWCH YR YSGOL – Cynhaliwyd y gwasanaeth yn yr ysgol ddydd lau, Hydref 16. Y POarch S.O. Hughes, sy'n un o lywodraethwyr yr ysgol, a fu'n sgwrsio â'r plant. Casglwyd £10.00 tuag at Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru.

YR URDD – Bydd Adran yr Urdd, Bethel yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Sul yr Urdd eleni ar Dachwedd 16. Cynhelir y gwasanaeth yng Nghapel Mawr, Llanrug am 6 o'r gloch. Fe drefnir bws i fynd â'r plant i Lanrug a bydd croeso cynnes i bawb i'r Gwasanaeth.

Nos Fercher, Tachwedd 19 bydd bws yn cychwyn o'r ysgol am 6.30 i fynd â phlant yr Urdd i Fangor i gael golwg ar yr Orsaf Ddan yno. Gan y bydd ymarfer ym Mangor pob nos Fercher, disgwylir cael "sioe" gwerth ei gweld. Gofynnir i'r plant gyfrannu 20c yr un tuag at gost y bws.

Mae 120 o seddi wedi eu clustnodi ar gyfer plant Bethel ym Mhantomeim Cwmni Theatr Cymru ar nos Wener, Ionawr 9, 1981. Bydd tocyn i'r pantomeim yn costio £1.20 a gofynnir i bob aelod sy'n dymuno dod i'r pantomeim roi eu henwau a'r tal i Anti Fanny cyn diwedd Tachwedd. Syr Wymff a Phlwmsan fydd sêr y pantomeim eleni ac yn ôl bob sôn hwn fydd y pantomeim gorau eto.

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher, Hydref 9 cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr John Hugh Hughes, Llys Myfyr. Cafwyd nifer o storïau difyr a hefyd eglurhad ac ystyr enwau lleoedd. Cyfrannwyd £76, elw Sioe Ffasiynau Antur Aelhaearn i Gronfa Rhian Wyn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Mae'r gangen hefyd yn trefnu i Theatr Bara Caws ddod i'r Neuadd yn ystod mis Ionawr gyda'u

pantomeim Bynsan Binc.

YSGOL FEITHRIN – Cafwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn yn y neuadd fore lau, Hydref 16 pryd y gwnaed elw o £38. Enillwyd y raffl gan Mrs Williams, 11 Cremlyn a Mrs Val Jones, Stad Eryri. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth gafwyd. Cofiwch am y Raffl fawr sydd a gwobrau o £15, £10 a £5 i'w dynnu ar Ragfyr 18.

Mae rheolau pendant yn dweud na chaniateir ond 20 o blant yn yr ysgol. Gan fod 18 ar y llyfrau yn barod ni ellir derbyn plentyn dan ddwy a hanner tan fis Ionawr. Os oes mam a diddordeb i yrru ei phlentyn i'r ysgol feithrin rhwch yr enw i Mrs Ann Parry, Waen Deg os gwelwch yn dda.

CYDYMDEIMLO – Ar Fedi 26 bu farw Mrs Elizabeth Richards, 15 Bro Rhos yn 86 oed. Estynnir ein cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU – I John Elwyn Williams, 18 Stad Eryri ar gael gradd Meistr Addysg ym Mhrifysgol Bangor. Mae Mr Williams yn bennaeth Adran Fywydeg Ysgol Tryfan, Bangor. Mae Mr a Mrs Williams bellach wedi symud i fyw i Lanfairpwllgwyngyll. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd.

LLONGYFARCHIADAU – I William W. Owen, Westleigh Tan y Buarth a fu yn dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed ar Hydref 10.

CLWB Y RHOS – Cafwyd noson agoriadol ddifyr iawn i dymor newydd Clwb y Rhos. Llywyddwyd y noson, a oedd yng ngofal Collwyn Williams, gan y llywydd newydd, Mr Ronnie Williams, Seion. Soniodd Collwyn, yn ddifyr iawn, am ei yrfa a'i waith gyda'r frigad dân yng Nghanolbarth Lloegr a Gwynedd.

PWY FYDD YMA 'MHEN CAN MLYNEDD

gan
Tegid Roberts

Bydd y flwyddyn nesaf, 1981, yn flwyddyn arbennig iawn i'r Demograffwyr. "Pwy yw rheini?" medda' chi. Rhain yw'r bobl sy'n astudio Poblogaeth, a'r enw ar eu gwaith yw Demograffi. Y Cyfrifiad (Census) fydd yn mynd â'u sylw y flwyddyn nesaf – y cyfrif a wneir gan y llywodraeth bob deng mlynedd.

Mae poblogaeth wedi ennyn diddordeb llywodraethau'r byd ers canrifoedd. Onid trwy wybod faint o bobl sydd mewn gwlad a thref y gall unrhyw lywodraeth godi trethi a cheisio gofalu am anghenion ei phobl? Â hanes cyfiri poblogaeth yn ôl i gyfnod yr Hen Destament. Cawn hanes y Brenin Dafydd yn rhifo Israel o Fersheba i Ddan. Wedyn yn ddiweddarach, onid i gael eu cyfri a'u trethu gan filwyr Rhufain, oedd i gyfrif Mair a Joseff wedi teithio i Fethlehem pan anwyd Crist? Yn dilyn y goresgyniad Normanaidd wedyn yn 1066, un o'r pethau cyntaf a wnaeth y Brenin William Goncwerwr, oedd gorchymyn i'w weision fynd o amgylch y wlad i gyfri'r holl bobl, a'u heiddo, gan gynnwys eu hanifeiliaid. 'Roedd y brenin am gael gwybod sut wlad yr oedd wedi ei meddiannu. Croniclyd y cyfr yn yr enwog lyfr, y 'Domesday Book' – yr enw yma wedi ei roi arno bryd hynny gan bobl y wlad oherwydd eu bod yn credu fod diwedd y byd wedi dod i'w rhan.

Yn y chwarter olaf o'r ddeunawfed ganrif mae'n debyg y daeth yr angen o ddiiffrif i gyfri'r boblogaeth. Yr oedd y Chwyldro Diwydiannol ar dro a'r boblogaeth yn dechrau symud i'r canolfannau gwaith newydd a dyfodd dros nos megis yn ei sgîl. Yn dilyn cyhoeddi traethawd ar boblogaeth ym 1788 gan ŵr o'r enw Malthus, penderfynodd llywodraeth Addington baratoi'r Cyfrifiad swyddogol cyntaf ym Mhrydain. Rhoddwyd y gwaith o drefnu'r cyfrifiad cyntaf hwn ym 1801, i was sifil galluog o'r enw Rickman. Cyfrifiad syml ydoedd. Yr oedd y llywodraeth am wybod tri pheth: Yn gyntaf, maint a dosbarthiad y boblogaeth trwy'r wlad. Yn ail, y nifer o dai â phobl yn byw ynddynt a thai gwag, ac yn olaf, y nifer o bobl a weithiai ar y tir, mewn masnach, ac yn cynhyrchu nwyddau mewn ffatrioedd neu yn eu cartrefi.

Rhifau yn unig oedd eu hangen a defnyddiwyd swyddogion y Plwyfi i wneud y gwaith am dâl bychan. Wedi iddynt ymweld â phob tŷ yn y Plwyf ar un noson arbennig, a chasglu'r wybodaeth, anfonwyd y ffigurau trwy law'r Ustusiaid lleol i'r Senedd.

Gofynnwyd yr un tri chwestiwn wedyn ym 1811, 1821, ac 1831, a chasglwyd y ffigurau yn yr un drefn. Yna ym 1841, daeth newid. Pasiwyd deddf Gofrestru Gyffredinol ym 1836 a daeth gwasanaeth rhad y swyddogion Plwyfi i ben o ganlyniad i ddeddf Diwygio Cyfraith y Tlodion ym 1834. Penderfynwyd ethol swyddogion pwrpasol i gasglu'r wybodaeth o hyn allan, ac am y tro cyntaf yr oedd gofyn iddynt ysgrifennu mwy o fanylion o lawer ar ffurflen, er enghraifft, enwau'r tai neu'r styrdedd enwau a chyfenwau'r bobl, eu statws briodasol, eu hoed, eu gwaith a'r lle'u ganwyd.

Dyna fu'r dref wedyn bob deng mlynedd, ond yn y ganrif hon mae'r ffurflen wedi cynyddu yn ei chymhlethdod a'i chwestiynau ac yn debygol o wneud hynny bob degawd o hyn allan. Ys gwn i beth fydd y llywodraeth eisiau wybod gennym ym 1981 a beth fydd maint y ffurflen? Mae un peth yn sicr. Chawn ni'r cyhoedd ddim gweld yr ystadegau i gyd, hyd nes y bydd can mlynedd wedi mynd heibio, ond fe gawn weld y wybodaeth a gasglwyd rhwng 1801 ac 1871 yn awr. Mae copiau o bob cyfrifiad i'w gweld ar feicroffilmiau yn yr Archifdai lleol neu yn y Swyddfa Gofnodion Cyhoeddus yn Llundaïn. I'r hanesydd lleol, dyma ffynhonnell ddiddorol, oherwydd ar ffurflenni'r Cyfrifiad y mae nifer o ffeithiau eithaf cywir am natur poblogaeth bro ganrif a mwy yn ôl.

Ychydig ddyddiau yn ôl cefais wahoddiad i roi sgwrs i aelodau Clwb yr Heulwen ym mhentref Penisa'rwaun. Dangosais ychydig o ffurflenni cyfrifiad 1871 o ardal Dyffryn Nantlle iddynt. Gofynnodd un aelod i mi a fuasai'n bosib cael gweld pwy oedd yn byw yn y 'Stablau' neu Craig y Ddinas, i roi yr enw iawn ar y lle, gan mlynedd yn ôl. Fe gefais gopi o'r rhan perthnasol o gyfrifiad 1871 Plwyf Llanddeiniolen yn yr Archifdy yng Nghaernarfon a dyma i chi pwy oedd yn cartrefu yn y 'Stablau' bryd hynny. Mae'n sicr fod teuluoedd rhai o'r bobl hyn o gwmpas y fro o hyd. Rhwch wybod i'r 'Eco' os ydych yn gweld enw eich hen daid neu'ch hen nain ymhlith yr enwau. Beth am gael dipyn o'u hanes genych? Diddorol yw sylwi ynte fod yna nifer o ymfudwyr o Fôn wedi cartrefu yn y 'Stablau' ganrif yn ôl. Fedrwrch chi weld ryw-beth diddorol arall wrth edrych ar yr enwau? Byddwn yn falch o gael eich sylwadau.

Tegid Roberts

Gyferbyn: Dalen o gyfrifiad 1871: Plwyf Llanddeiniolen.

Parish or Township of Llanddeiniolen.		Ecclesiastical District of		City or Borough of		Town of		Village of Penisa'rwaun.	
No. of House Holders Schedule	Name of Street Place or Road and Name or No. of House.	Name and Surname of each person who abode in the house on the night of	Relation to head of the family	Condition	Age of		Rank Profession or occupation	Where born	Whether blind deaf or dumb
					Males	Females			
66	Craig y Dinas	Owen Roberts	Head	Married	22	—	Slate Quarry labourer	Eglwysbach, Denbigh.	—
		Elizabeth Roberts	Wife	married	—	34		Ffestiniog, Merioneth.	—
		John Roberts	Son	unmarried	1	—		Llanddeiniolen.	—
67	Craig y Dinas	Jane Jones	Head	married	—	61	Dressmaker	Llanrug.	—
		Mary Jones	daughter	unmarried	—	26	General Servant	Liverpool, Lancs.	—
		Robert Jones	son	unmarried	23	—	Mason	Llanrug.	—
		Jane Ann Jones	daughter	unmarried	—	16	Dressmaker	Llanddeiniolen.	—
68	Craig y Dinas	William Evans	Head	married	30	—	Slate Quarrier	Llanddeiniolen.	—
		Elizabeth Evans	wife	married	—	34		Llanddeiniolen.	—
		Mary Evans	daughter	unmarried	—	7		Llanddeiniolen.	—
		David Evans	son	unmarried	4	—		Llanddeiniolen.	—
		William Evans	son	unmarried	2	—		Llanddeiniolen.	—
		Sarah Ann Evans	daughter	unmarried	—	7 months		Llanddeiniolen.	—
69	Craig y Dinas	John Jones	Head	married	51	—	Slate Quarry labourer	Aberffraw, Anglesey.	—
		Mary Jones	wife	married	—	44		Llan gaffo, "	—
		Catherine Jones	daughter	unmarried	—	5		Llanfihangelgeifiog, "	—
		Mary Jones	daughter	unmarried	—	2		Llanfihangelgeifiog, "	—
		Benjamin Jones	son	unmarried	8 months	—		Llanddeiniolen.	—
70	Craig y Dinas	Owen Jones	Head	married	69	—	Railway Guard	Llanwnda.	—
		Mary Jones	wife	married	—	44		Llanfair-is-gaer.	—
		John Jones	grandson	unmarried	3	—		Llanddeiniolen.	—
		William Owen	Boarder	unmarried	20	—	Slate Quarry labourer	Llanfethell, Anglesey.	—
71	Craig y Dinas	John Roberts	Head	married	40	—	Göf-Smith	Llanddeiniolen.	—
		Jane Roberts	Wife	married	—	66		Llanbeblig.	—
		Elizabeth Jones	Servant	unmarried	—	23	General Servant	Llanddeiniolen.	—
72	Craig y Dinas	William Hughes	Head	married	51	—	Locomotive Cleaner	Llanfona, Anglesey.	—
		Catherine Hughes	wife	married	—	50		Llanfair, "	—
		John Hughes	son	unmarried	21	—	Slate Quarrier.	Llanddeiniolen.	—
		Mary Hughes	daughter	unmarried	—	10		Llanddeiniolen.	—
73	Craig y Dinas	Thomas Hughes	Head	married	71	—	Slate Quarry labourer	Llanfihangel, Anglesey.	—
		Martha Hughes	wife	married	—	63			—
74	Craig y Dinas	Jane Evans	Head	widow	—	79	Formerly General Serv.	Llanfalletayn.	—
75	Craig y Dinas	Ellen Parry	Head	widow	—	39	Keeping lodgers	Llanwnda.	—
		Griffith Parry	son	unmarried	19	—	Blacksmith	Llanwnda.	—
		Henry Parry	son	unmarried	18	—	Blacksmith	Llanwnda.	—
		William Parry	son	unmarried	16	—	Slate Quarrier out of work	Llanbeblig.	—
		William Williams	Father	widower	70	—	retired publican	Llanbeblig.	—
76	Craig y Dinas	Elizabeth Parry	Head	widow	—	44	looking after the children.	Llanbeblig.	—
		Elias Parry	son	unmarried	19	—	Slate Quarrier	Llanbeblig.	—
		Henry Parry	son	unmarried	14	—	Slate Quarrier	Llanddeiniolen.	—
		Jane Parry	daughter	unmarried	—	8	Scholar	Llanddeiniolen.	—
		Margaret Parry	daughter	unmarried	—	6		Llanddeiniolen.	—
77	Craig y Dinas	William Thomas	Head	widower	60	—	labourer on the Railway	Llanfihangel.	—
		Jane Jones	daughter	widow	—	36	House keeper	Llanrug.	—
		Elizabeth Jones	grand daughter	unmarried	—	14		Llanrug.	—
		William Jones	grandson	unmarried	11	—	Scholar	Llanrug.	—
		Ebenezer Jones	grandson	unmarried	9	—	Scholar	Llanrug.	—
		Rowland Jones	grandson	unmarried	7	—	Scholar	Llanddeiniolen.	—
78	Craig y Dinas	Robert Jones	Head	married	53	—	Slate Quarrier	Llanbeblig.	—
		Jane Jones	wife	married	—	56		Llandwrog.	—
		Robert Jones	son	unmarried	22	—	Slate Quarrier	Llandwrog.	—
		John Jones	son	unmarried	19	—	Slate Quarrier	Llandwrog.	—
		Jane Price	grand daughter	unmarried	—	6		Llandwrog.	—
79	Craig y Dinas	David Owens	Head	married	59	—	Slate Quarrier and Farmer of 8 acres	Llanwnda.	—
		Sian Owens	wife	married	—	55		Ffestiniog, Merioneth.	—
		Mary Owens	daughter	unmarried	—	32	Dressmaker	Llanddeiniolen.	—
		Owen Owens	son	unmarried	29	—	Slate Quarrier	Llanddeiniolen.	—
		John Owens	son	unmarried	22	—	Slate Quarrier	Llanddeiniolen.	—
		Ann Owens	daughter	unmarried	—	19		Llanddeiniolen.	—
		Thomas Griffith	grandson	unmarried	13	—		Llanddeiniolen.	—

DRAENOG



A yw'n wir fod aelodau'r heddlu yng Nghaernarfon yn gwrthod siarad Cymraeg?

Pan wrthododd gyrrwr car â rhoi manylion i blisman yno'n ddiweddar am nad oedd yn fodlon siarad Cymraeg, anfonwyd am y 'swigan lysh'

Ai dyma'r tro cyntaf i rywun orfod chwythu i'r cwdyn plastig am fynnu siarad Cymraeg?

Brysiwch!

Archebwch eich

**TWRCI
NADOLIG**

a'ch

CYW IÂR

a PHOB MATH

O GIGOEDD

ERAILL

YN AWR

gan

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

LONDON HOUSE

LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO!

Mynnwch y gorau
a dewch atom ni!

I DDATHLU DIWEDD Y RHYFEL



Y Frenhines Betty (Brenhines y Dathlu, Penisa'rwaun). gyda'i gosgordd, sydd yn cynnwys rhai pobl sydd erbyn heddiw yn amlwg ym mywyd y cylch — o'r ystafell athrawon i'r gegin ysgol!!

Diolch i Mrs Adlam, Penisa'rwaun am y llun.

Bistro

45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: PADARN 278

Pryd gorau'r fro.

O6I90 – O CHWECH I NAW DEG!

Sylwch fod y teitl yn aros yr un fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

BARTI DDU O . . .
GALIFFORNIA!

Mae'n siŵr fod llawer ohonoch wedi clywed am Barti Ddu y môr-leidr o Gymru, ond sgwn i faint sydd wedi clywed am y Barti Ddu arall, sef lleidr penffordd o Galiffornia?

Yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf, 'roedd llawer o bobl yn mudo i'r America i gychwyn bywyd newydd. Dyna'r adeg pan ddenwyd llawer o bobl i Galiffornia yn y gobaith o ddarganfod aur a gwneud eu ffortiwn. Yn ystod y cyfnod hwn sefydlwyd cwmni enwog Wells Fargo, a oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth post cyntaf yng ngorllewin America. Yn ogystal â chario llythyrau, 'roedd y cwmni hefyd yn cario llwch aur o'r gweithfeydd yn ôl i'r dwyrain i'w bwysu a'i brisio. Fel y cynyddai'r busnes, felly hefyd y cynyddai'r siawns i'r cwmni gael colledion oherwydd lladron.

Un o'r lladron a achosai lawer o drafferthion i'r cwmni oedd gŵr a gafodd ei alw'n Barti Ddu gan yrrwyr y goets a gariai'r aur. Byddai bob amser yn gwisgo dillad du, ac yn cuddio'i wyneb â mwgwd du. Buan iawn y lledodd yr hanes am Barti Ddu, y lleidr na allai hyd yn oed y Wells Fargo mo'i orchfygu.

Byddai Barti Ddu bob amser yn gweithio ar ei ben ei hun, gan gamu allan o flaen y goets mewn mannau anghysbell. Anelai ei wn at yrrwr y goets a'i orfodi i aros; ac yr oedd yn amhosibl bron saethu'n ôl ato, oherwydd ei fod yn defnyddio ceffyl blaen y goets i'w gysgodi. Taniwyd arno'n aml, ac fe'i hanafwyd droeon, ond parhau i ddwyn yr aur a wnai Barti Ddu. 'Roedd yn amlwg ei fod yn adnabod y wlad o amgylch yn dda iawn, oherwydd pan fyddai ditectifs y Wells Fargo yn chwilio amdano mewn un man,

TUDALEN I'R
PLANT: HEN AC
IFANC
Gan
DYFRIN
Y DEWIN



byddai Barti Ddu yn lladrata oddi ar goets arall mewn ardal rai milltiroedd i ffwrdd!


Ond dywedir fod pob drwgweithredwr yn gwneud camgymeriad unwaith, a dyna ddigwyddodd i Barti Ddu hefyd. Gadawodd hances boced ar lawr wrth ochr llwybr ar ôl lladrata oddi ar goets. Daeth ditectifs Wells Fargo o hyd i'r hances a dyna ddechrau helpa a barhaodd am amser maith. 'Roedd marc arbennig ar yr hances, sef y marc a roddwyd arni wedi iddi gael ei golchi mewn 'laundry'. Y marc oedd FX-07.

Bu'r ditectif yn holi mewn 91 o wahanol dai golchi cyn dod ar draws yr un a fu'n gyfrifol am olchi hances Barti Ddu. Tŷ golchi ydoedd mewn ardal ar gyrion tref San Francisco. Enw'r cwsmer a roddodd yr hances i'w golchi oedd dyn busned o'r enw Mr Charles Bolton. Aeth y ditectifs i'w gartref a'i holi. 'Roedd yn ŵr busnes llwyddiannus iawn, ond byddai i ffwrdd oddi cartref yn aml iawn oherwydd natur ei waith yn edrych ar ôl buddiannau'r gweithfeydd aur. Buan iawn y darganfu'r ditectifs mai ei unig waith oedd dwyn yr aur, ac fe'i harestiwyd. Treuliodd Barti Ddu chwe mlynedd yng ngharchar am ddwyn oddi ar y Wells Fargo.

PWY SYDD AR Y MAP?

Ym 1846, yn ystod Rhyfel Meccsico, cyhoeddwyd California yn Werinlywodraeth gan ymfudwyr o'r America. Yn ddiweddarach, daeth California yn rhan o Unol Daleithiau'r America, a chadarnhawyd hyn gan gytundeb a arwyddwyd yn 1848. Yn y flwyddyn honno

LLUN I'W LIWIO




POSAU DYFRIN Y DEWIN

Faint o enwau anifeiliaid gwyllt Prydain sydd wedi eu cuddio yn y sgwar isod? Anfonwch yr atebion cywir gyda'ch enw a'ch cyfeiriad i DYFRIN Y DEWIN, GWASG GWYNEDD, CAERNARFON erbyn Tachwedd 15ed. Bydd gwobr i'r atebion cywir cyntaf a dynnir o het y dewin!

T	LL	P	R	Y	LL	W	Y	D	Y
G	W	I	W	E	R	Y	A	S	O
O	D	R	A	E	N	O	G	U	M
L	DD	O	CH	A	TH	Y	N	O	CH
R	Y	FF	C	D	F	A	S	W	D
O	H	P	RH	A	A	P	P	R	Y
M	W	I	R	TH	R	E	S	A	F
I	C	N	E	W	G	L	A	C	R
G	O	N	Y	W	LL	O	W	R	G
G	Y	LL	Y	S	T	L	U	M	I

hefyd y darganfuwyd aur yn Nyffryn Sacramento, a chychwyn y Rhuthr Aur i Galiffornia.

Dyma gefndir hanesyddol y dref fechan a elwir yn RUTH, ar lannau Afon Mad ym Mharc Coedwigaeth Cenedlaethol Trinity. Ni sefydlwyd swyddfa bost yno hyd 1904, ond y mae enw'r dref yn coffáu merch o'r enw RUTH McKnight; un o'r teuluoedd cyntaf i ymsefydlu yn yr ardal.



Atebion Pos hydref (52)
Y rhifau ar y cerdyn bingo sy'n adio i gant yw 53, 17, 15, 9 a 6.

**GWASANAETH
NEWYDD
YNG
NGHAERNARFON**



**Bathodynau
Crwn ar
gyfer . . .**

Clwb Rygbi/Tim Peldroed/Cymdeithas
Grŵp Pop/Clwb Gwerin/Papur Bro
Siop/Busnes/Swyddfa, etc, etc

Am fwy o fanylion a samplau cysyllter ag:

EURIG WYN

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

**SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP TELEDU**

CEPAS

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

LLANBERIS

PLAID CYMRU – Nos Iau, Hydref 9 cafwyd noson hapus iawn yng Ngwesty Bron Eryri yng nghwmni Mr a Mrs Dafydd Wigley, A.S. Mwynhawyd eitemau ar y delyn gan Mrs Wigley ac adroddiadau a sgwrs gan Mr Wigley ac adroddiadau a sgwrs gan Mr Wigley. Dilynwyd yr adloniant gan bryd o fwyd a gwnaethpwyd y diolchiadau gan Mr Gwynfor Williams. Enillwyd raffl y sieri gan Mrs E.M. Jones, Maes Padarn, a'r siocled gan Mrs George Parry, Stryd Tyrner. Cyflwynodd Mrs Parry y siocled i Mrs Wigley i'w roddi i'r plant yn Ysgol Pendalar, Caernarfon.

MARWOLAETHAU

Mrs Mary Gwyneth Clowes. Brawychwyd yr ardalwyr pan ddaeth gwybodaeth am farw sydyn mor annisgwyl un o blant yr ardal – Mary Gwyneth Clowes a symudodd gyda'i phriod i fyw i Fanceinion. Cydymdeimlir â'i modryb, Miss Williams Stryd Ceunant ei mab y meddyg Carl Clowes, a'i merch a'r teulu.

Mr Robert John Williams. Ar ôl gwaeledd hir a phoenus bu farw Robert John Williams yn ei gartref 'Kenya', Y Stryd Fawr wedi iddo gyrraedd ei 80 oed. 'Roedd yn un o 'hogiau'r' ardal a pharch o'r ardalwyr yn ei adnabod fel "R.J." Un o hen deulu Mur Cwmp ydoedd ac wedi ei fagu yn Llainwen Isaf. Saer coed ydoedd o ran ei alwedigaeth, a bu'n cadw busnes iddo ei hun ar ddechrau ei yrfa. Ond fel Rheolwr Rheilffordd yr Wyddfa yr adnabu y mwyafrif ef. Bu'n hynod o garedig wrth ei gyd weithwyr gan gyflogi gweithwyr lleol dymor ar ôl tymor. Aelod o eglwys Nant Padarn ydoedd, a bu'n aelod ffyddlon iawn yn y gorffennu, yn ysgrifennydd yr eglwys am flynyddoedd, yn aelod o'r Pwyllgor Eglwys, ac yn Arolygwr yr Ysgol Sul droeon. Bu'n aelod gweithgar iawn o Glwb Drama'r Capel oedd dan arweiniad y diweddar J.R. Owen, 'Hirfon', nid yn unig fel 'actor' ond yn gofalu am y llwyfan a'r celfi am flynyddoedd. Bu gwasanaeth angladdol yn yr Amlosgfa ym Mangor ac yna daethpwyd a'i lwch i fynwent Nant Peris gyda Canon Alun Jones yn gwasanaethu. Estynnir cydymdimlad â'i weddw a'r unig fab, Hohn yn eu colled.

Mr Peter Angel. Yn frawychus o sydyn bu farw Peter Angel, Tai'r Faenol. 'Roedd yn 71 oed ac yn fregus ei iechyd ers peth amser. Cymeriad hynod o dawel a charedig ydoedd, ac yn barod iawn ei gymwynas bob amser. Daeth i'r ardal gyda'i rieni i gadw busnes, ac wedi eu colli cadwodd ef a'i briod, Mary fusnes yn 'Snowdon Valley' hyd ei ymddeoliad pryd y symudodd i Dai'r Faenol. Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn y cartref ac yn ddiweddarach gwasanaeth i'r lluo o gyfeillion yn yr Amlosgfa ym Mangor. Estynnir cydymdeimlad â'i weddw a'r teulu yn eu profedigaeth.

Hywel Davies. Wedi blynyddoedd o gartrefu yn un o Gartrefi Henoed Gwynedd yn Llandudno, bu farw 'Hywel' mab y diweddar Mr a Mrs Gwilym Ifor Davies, Min-y-Coed, yn 58 oed. Bu y gwasanaeth claddu ym Mae Colwyn a dygwyd ei lwch i feddrod y teulu yn Nant Peris. Cydymdeimlir â'r ddwy chwaer Annie sy'n byd yn Llangollen, a Rhiannon sy'n byw ers blynyddoedd lawer yn Seland Newydd.

G W A S A N A E T H A U
DIOLCHGARWCH – Cynhaliwyd gwasanaethau diolchgarwch yn holl eglwys i'r pentref, ond yn ystod pnawn dydd Llun cafwyd cyfarfod arbennig iawn wedi ei drefnu gan y Parch Hugh John Hughes a'r Parch

Marcus Robinson i blant yr holl eglwys. Eleni cynhaliwyd y gwasanaeth yn Nant Padarn, ac am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer gwelwyd yr adeilad yn llawn o blant a rhieni, plant bach a phlant hyn yn eistedd hyd y llwyfan a'r meinciau a'r oedeolion yn gorfod sefyll yma ac acw. 'Roedd yn awyrgylch hyfryd ac yn dwyn ar gof i'r oedolion y cyfarfodydd diolch 'ers talwm'. Cafwyd anerchiad addas iawn i'r plant gan y Parch Hugh John Hughes, a derbyniwyd rhoddion y plant gan y Parch Marcus Robinson, ac yn ddiweddarach cyflwynwyd y cyfan i Gartref Pengwaith. Cafwyd eitemau o gân, gan barti o'r genethod hynaf wedi eu dysgu gan Mrs Ann Pritchard a Mrs Lola Sellers.

YN GWELLA – Da deall bod Mr William Jones, Siop Padarn, gartre ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol i'r lwygaid, ac wedi gwella.

Hefyd, Amanda, merch hynaf Mr a Mrs Sellers, Stryd Goodman, hithau wedi cyhwelyd gartref o Ysbyty Môn ac Arfon ar ôl triniaeth, ac yn gwella.

I'R COLEG – Estynnir dymuniadau da a phob llwyddiant i'r cyfryw yn eu maes addysgol newydd – Rhian, merch Mr a Mrs Bryn Parry, 'Mafeking' sydd wedi mynd i Brifysgol Aberystwyth. Menai Wyn, – merch Mr a Mrs W. Davies, 18 Dôl Elidir, hithau wedi dechrau yng ngholeg Llandrillo, a Glenda, merch Mr a Mrs G. Williams, Bod Owen i Bolytechnig Manceinion i wenud cwrs mewn cyfrifiaduron.

UNDEB Y MAMAU – Ar y 7 o'r mis diwethaf cynhaliwyd cyfarfod misol Undeb y Mamau Eglwys Sant Peris a Sant Padarn. Llywyddwyd gan y Canon Alun Jones. Cafwyd anerchiad ddiddorol iawn gan Mrs Cragg o Fiwmares ar ei ymweliad â Phalas Buckingham. Diolchodd Mrs Dennise Hughes iddi, a Mrs Kathleen Williams yn ategu. Yn ystod y prynhawn cyflwynwyd anrheg i Mrs Eddie Jones, 1 Blaen y Ddôl am ei gwasanaeth ffyddlon i'r Undeb tros gyfnod maith iawn.

TRIP I BARIS – 'R oedd Bethan, merch hynaf Mr a Mrs Eirwyn Jones yn un o hanner dwsin o ddisgyblion Ysgol Brynrefail Llanrug a fu'n treulio wythnos ym Mharis gyda'r prifathro, Mr Elfyn Thomas. Deëllir iddynt gael wythnos ddifyr, addysgiadol a hefyd bleserus iawn.

CYDYMDEIMLIT – Â Mr Tom Jones, Stryd Newton, ar golli ei dad yn yr ysbyty yng Nghaernarfon.

Hefyd, â Mr Ted Thomas, Ffordd Tŷ Du – yntau wedi colli ei frawd yn Neiniolen.

CLWB Y MAMAU – Anerchiad difyr iawn a gafodd aelodau Clwb y Mamau gan Mr Gwynfor Williams a Mr Paul Jones am Wasanaeth Ambilwans yng Ngwynedd. Diolchwyd iddynt gan Mrs Carys Hughes, y llywydd.

DYWEDDIAD – Llongyfarchiadau i Pauline, merch ieuengaf Mr a Mrs R.H. Williams, 5 Bythynnod y Faenol ar ei dyweddiad â Dilwyn Griffiths, Aberffrawd.

Hefyd Linda, merch Mr a Mrs G. Thomas, Gwynant, Rhos Olgra, â Gwilym, mab Mr a Mrs G. Davies, 2 Trem yr Wyddfa, Pen-y-Groes.

NOSON GOFFI – Yn y Ganolfan, nos Fercher, Tachwedd 5 cynhelir noson goffi gyda stondinau amwryol gyda'r elw'n mynd at y 'Liver Research Foundation'.

Cefnogwch yr ymgyrch yn hael!

PRIODAS – Llongyfarchiadau i'r parau ieuanc ar eu priodasau. Hir oes a hapusrwydd iddynt.

CLWB METHEDIG ERYRI – Prynhawn dydd Llun, Hydref 13 cafwyd

prynhawn yng nghwmni Mrs Mary Lloyd Williams, Llys Awen, Llanrug. Cyflwynwyd Mrs Williams gan yr ysgrifennydd, Mr E.O. Thomas a'i llongyfarch am iddi gael ei hurddo'n aelod o Orsedd Beirdd Ynys Prydain yn Eisteddfod Dyffryn Lliw. Ei hewn barddol yw 'Mari Rhyddallt'. Dywedodd, hefyd, fel yr oedd yn adnabod ei thad, Isaac Lloyd, Glan Rhyddallt.

Diolchwyd iddi gan Matron A.M. Jones am brynhawn difyr.

DIOLCHIADAU – Dymuna Mr a Mrs W. Thomas a Mr a Mrs E.O. Thomas (Rallt Goch gynt) am y cardiau, geiriau cysurus a galwadau ffôn, ar farwolaeth eu brawd Dick – sef R.J. Thomas, 2 Bro Helen, Deiniolen.

LLENG BRYDEINIG FRENHINOL – Cangen Llanberis a'r Cylch. Sul y Cofio, Tachwedd 9. Trefn y gwasanaeth os bydd y tywydd yn ffafriol fydd gorymdaith yn cychwyn o'r Llythyrdy ar hyd y Stryd Fawr i'r Ganolfan lle bu'r gwasanaeth.

Os bydd y tywydd yn anffafriol cynhelir y gwasanaeth yn y Ganolfan ac o flaen y gofologlofn am 11 o'r gloch yn y bore.

RÂS – Ers rhai blynyddoedd n'awr mae Pwyllgor Pêl-droed Llanberis, yn cynnal ras bramiau, bob ddydd Gŵyl Steffan (Rhagfyr 26). Maent wedi penderfynu cynnal y râs eto eleni, ond mae prinder pramiau. Apeliant i'r ardalwyr am hen bramizu, eu benthyg, neu eu cael. Os oes gan rywun bram – cysylltwch â Mr Arfon Phillips, 38 Stryd Fawr, Llanberis. Telffôn: Llanberis 772.

PERSONOL – Dymuna Miss Glenys M. Parry ddiolch yn fawr iawn i gyn-ddisgyblion Sant Ioan am yr anrheg a dderbyniodd yn ddiweeddard.

PRIODI – Dydd Sadwrn, Hydref 11 yng nghapel Preswylfa priodwyd Sharon Elis, merch hynaf Mr a Mrs Irfon Ellis, 7 Rhos Efrog gyda Michel Blanchard, mab Mr a Mrs Robert Blanchard, Llythyrdy Tanycoed. Byddant yn preswyllo yn Saron, Bethel.

Dydd Sadwrn, Hydref 18 yng nghapel Brynteg, Llanybydder, priodwyd John Bryn, mab Mr a Mrs Alwyn Owen, 15 Stryd Siarlot â Shirley Jean, merch Mrs Eirwen Thomas a'r diweddar Mr J. Thomas, Cilgwyn, Cwmsychnant, Dyfed.



Deirdre Morris, 26 Maes Padarn, Llanberis a Gareth Parry, 2 Bryn Hele, Llanrug wedi eu priodas ddydd Sadwrn, Hydref 18 yng nghapel Coch. (Llun: Gerafft Llewelyn)

Dymuna Deirdre a Gareth ddiolch i'w perthnasau a'u lluo ffrindiau am yr holl anrhegion a dymuniadau da a gafwyd ar achlysur eu priodas.

Llongyfarchiadau i'r parau ieuanc ar eu priodasau. Hir oes a hapusrwydd iddynt.

AR WERTH

N. Hillman Hunter mewn cyflwr da £890 – Cricieth 2093.

DINORWIG

YR YSBYTY – Aethpwyd a Mrs Laura Roberts, Bron Gynfi i ysbyty Môn ac Arfon, am driniaeth wedi anafiadau yn ei chartref. Erbyn hyn, aeth am seibiant at ei merch yn Rhiwlas. Aderiad buan iddi. Bu Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir, am driniaeth feddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon. Da ei weld wedi dod gartref ac yn gwella. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Aethpwyd â Mrs Ann E. Jones, 3 Bro Elidit i ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon, am driniaeth feddygol. Gwellhad buan iddi. Tra bydd yn yr ysbyty bydd y bechgyn, David, Alwyn a Wyn mewn gofal maeth yn Llanbedr, Harlech.

MARW – Dydd Sadwrn, Hydref 18, yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, wedi cystudd maith, bu farw Mr Eirwyn Fleming, 1 Maes Eilian, yn 47 mlwydd oed.

Cydymdeimlir â Mrs M. Fleming, ei weddw, Kelvin y mab, a'r ddwy ferch Helen a Marian, ynghyd â'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DINORWIG – Oherwydd amgylchiadau neilltuol gohiriwyd cyfarfod agoriadol y gymdeithas nos Iau, Hydref 23, hyd Hydref 30, pryd bydd cyngerdd agoriadol dan ofal Seindorf arian Deiniolen a'r Cylch.

DIOLCH – Dymuna Mrs Fleming a'r plant, 1 Maes Eilian, ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth fawr o golli priod a thad annwyl. Diolch yn arbennig i Dr D. Hughes a Sister Marable am eu gofal ohono; hefyd i Mr a Mrs R.H. Thomas a Mrs K. Hughes ac i'r holl gymdogion a ffrindiau a fu mor garedig tuag at Eirwyn tra bu yn yr ysbyty yn ei gartref. Bu pob ymweliad o gymorth mawr iddo yn ystod ei waeledd.


RHODDION

Diolch i'r cyfeillion canlynol am eu rhoddion hael:

£2.00: Mrs Katie Lloyd, Hughes, 2 Maes Eilian, Dinorwig. Mrs Megan Williams, Tan-y-gaer, Llanrug. Di-enw, Deiniolen.

£1.00: Mr E.O. Thomas, Llanberis. Miss J. Williams, 39 Pen-nant, Llangefni. Mrs M. Evans, Maes y Dref, Clwt y Bont. Mrs Helen Jones, 7 Dôl Erddi, Waun-fawr.

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

LLANRUG

Y GYMDEITHAS UNDEBOL - I agor y tymor, dan lywyddiaeth y Parch W.O. Roberts, cafwyd sgwrs ddiddorol gan yr Athro Bedwyr Lewis Jones ar 'Gyfoeth ein Hiaith Lafar'. Treuliwyd noson ddiffr iawn yn gwrandio arno'n olrhain hen enwau sy'n dal i gael eu defnyddio mewn rhannau o Gymru; ynghyd â hen ddiarhebion Cymraeg. Siaradwyd ymhellach gan Mr W.A. Jones. Diolchwyd gan Miss Megan Humphreys a Mrs M. Lloyd Williams.

DIOLCHGARWCH - Cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch ym Mhontrythallt ddydd Sul a nos Lun. Cynhaliwyd gwasanaeth nos Sul gan y plant a'r bobl ieuanc. Derbyniwyd rhoddion o ffrwythau, llysiau, a blodau ac fe'i hanfonwyd i Gartref Frondeg, Caernarfon.

MARW - Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Lucy Jones, 20 Bro Rhyddallt, fore dydd Mawrth, yn ysbyty Bryn Seiont. Hanai Mrs Jones o Gaernarfon. Gedy fab a dwy ferch.

LLONGYFARCHIADAU - I Dafydd Arfon Jones, 3 Minffordd ar ei benodiad yn brifathro Ysgol Gynradd Glanadda, Bangor. Ein dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd.

CROESO ADREF - I Mrs M. Lewis, Madryn House, ar ôl treulio gwyliau yn Awstralia.

CLWB BLODAU'R GRUG - Cyfarfu'r Clwb brynhawn iau, Hydref 9 yn y Sefydliad coffa. Y cadeirydd oedd y Parch Gwynfor Williams. Cafwyd prynhawn difyr yng nghwmni Mrs Mary Davies, Llys-y-Gwynt, Penisarwaun yn dweud ei hanes yn treulio'i gwyliau yn Awstralia. Diolchwyd iddi gan y cadeirydd. Penderfynwyd cyfrannu £6 tuag at y wobr yn y gystadleuaeth i'r hrai fydd yn canu dros 50 oed yn Eisteddfod Gadeiriol Llanrug.

Penderfynwyd anfon dymuniadau da am wellhad buan i Mrs Eric Morris, Awelfryn, Tanycoed sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl.

Rhoddwyd y te a'r raffl gan Mrs Katie Griffith, Hafan Elan, Mrs Jones, Bodlondeb, Mrs Williams, 10 Glanmoelyn. Nid oedd Mrs Jones, Hafan Elan yn bresennol oherwydd gwaeledd. Enillwyd y raffl gan Mrs L. Hughes, Isfryn, Pontrhythallt.

CANOLFAN HAFAN ELAN - Nos Fawrth, Hydref 14 daeth Mr Griff Roberts, Tŷ Gwyn, Glyntwrog i'r ganolfan i roddi sgwrs a dangos sleidiau ar deithio. Mae'r trigolion yn ddiolchgar iawn iddo am noson ddiffr dros ben.

Yn ystod y cyfarfod creosawyd tenant newydd, Mrs Williams o Frynrefail a ddaeth i fyw i rif 16. Derbyniodd y trigolion ddwy rodd yn ddiweddar, a dywedir eu bod yn cael llawer iawn o hwyl gyda hwy - Bwrdd Dartiau gwerth chweil gan dîm dartiau Glyntwrog, a Bwrdd Bingo gan Bwyllgor Clwb Snowdonia, Penisarwaun. Diooch o galon amdanynt. Dymunir gwellhad buan i'r canlynol, Mrs Cecil Williams, rhif 19; Mrs Griffith, Rhif 18; Mrs Williams, Rhif 6; Mr Pritchard, Rhif 4; a Mrs Roberts, rhif 2.

Y SEINDORF - Fore Gwener, Hydref 3, cychwynnodd y Seindorf a'u cefnogwyr i Lundain i gystadlu yn y Rownd Derfynol Genedlaethol yn Hammersmith. Ni ddaeth y Seindorf i'r gwobrau, ond er hynny 'roeddynt yn falch iawn o'r cyfle a gawsant.

Fel arfer, ar fore Sul y Cofio, bydd y Seindorf yn bresennol yn y Sefydliad Coffa, cyn mynd i'r Gwasanaeth ar faes Caernarfon.

PLAID CYMRU - Nos iau, Hydref 16 yn neuadd ysgol Brynrefail cafwyd noson ddiffr iawn o dan nawdd Pwyllgor Llên ac Adloniant, cangen

Llanrug o Blaid Cymru. Cafwyd eitemau cerddorol gan gôr Clychau'r Grug a gwelwyd dawn a medr y Dewin Doniol, sef Dic Jones.

Hyfrydwch mawr oedd gweld llun Mrs Olwen Jones, gynt o Bontrhythallt yn y Faner, yn ddiweddar, pan safai wrth ochr Dr Gwynfor Evans ar achlysur dadorchuddio cofeb i'w gŵr, y diweddar J.E. Jones, Pensaer Plaid Cymru. Mae Mrs Jones yn ferch i'r diwedddar. Barchedig W.J. Roberts, lsgaer, Pontrhythallt. Aeth nifer o aelodau'r gangen i'r cyfarfod yn ysgol Gynradd Melin-y-Wig, ger Corwen.

PRIODAS - Dydd Sadwrn, Awst 30 yng nghapel Glanrhyd, Llanwnda, priodwyd Gwynn Jones, mab Mr a Mrs Owen Jones, Y Garth, Ceunant gyda Sylvia Kift, merch Mr a Mrs Selwyn Pritchard, Golygfa, 19 Bryn Moelyn. Pob dymuniad da iddynt.



DIOLCHGARWCH Y CAPEL MAWR - Dydd Llun, Hydref 20 cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolch am y cynhaeaf fel arfer yn y Capel Mawr. Cafwyd tri chyfarfod bendithiol gyda chynulliadau lluosog iawn o bob oedran. Yn y bore arweinwyd gan blant yr Ysgol Sul. Daeth nifer dda iawn o'r plant ynghyd, ac yr oedd graen da ar eu gwaith. Trefnwyd y rhaglen gan y gweinidog, a hyfforddwyd y plant yn y caneunon gan Mrs Mair Jones, Ogwen. Hi hefyd oedd yn cyfeilio yn y cyfarfod. Yr oedd cyfarfod y prynhawn dan ofal y chwiorydd, ac o dan lywyddiaeth Mrs Nansi Roberts, Anedd Wen. Cymerwyd rhan gan y llywydd ynghyd â Mrs Eryl Roberts, Miss Beryl Wyn Jones, Mrs Megan Owen, Mrs Nansi Lovatt, Miss Helena Parry, Mrs Meryl Williams a Miss Myfanwy Jones. Daeth yr Ŵyl i ben gyda Chyfarfod Gweddi yn yr hwyr o dan arweiniad y brodyr. Teimlwyd nawr hyfryd drwy gydol y dydd, a thystia llawer i'r fendith a dderbyniasant. Cyfeiliwyd yn y prynhawn gan Mrs M. Jones, Ogwen, ac yn yr hwyr gan Mrs Nansi Lovatt.

BEDYDDIO - Prynhawn Sul, Medi 28, yn ystod yr Ysgol Sul yn y Capel Mawr, bedyddiwyd Dewi Gruffudd, mab bychan Dafydd a Gwenda Thomas, Cefn Rhyddallt gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts.

Prynhawn Sul, Hydref 12 yn y Capel Mawr bedyddiwyd Iwan, mab bychan Owen ac Ann Lloyd Griffith, Hawddamor, gan y gweinidog y Parch W.O. Roberts.

DISGO - Cynhaliwyd disgo er budd cronfa Gobeithlu'r Capel Mawr yn yr Ysgol Gynradd. Yr oedd y noson dan ofal Mr Gwilym Evans, Llanberis. Trefnwyd y bwyd gan Mrs Joan Williams, Llys Llywelyn ynghyd â staff cegin yr ysgol. Mwynhaodd y plant, yn hen ac ieuanc, eu hunain yn fawr. Diolchwyd yn gynnes i bawb a fu'n gymorth i wneud y noson yn llwyddiant gan y Parch W.O. Roberts. Diolchodd hefyd i brifathro'r ysgol am ei hynawsedd yn caniatau iddynt ddefnyddio'r ysgol.

CYFARFOD SEFYDLU - Nos Fercher,

Hydref 8 aeth llond bws o Lanrug i Ddinmael, (ger Corwen) i Gyfarfod Sefydlu'r Parch Ifan Rhisiart Roberts (gynt o'r Tŷ Capel Mawr, Llanrug). Sefydlwyd Mr Roberts yn weinidog ar bedair eglwys Llanfighangel, Llangwm, Dinmael a Thŷ Mawr. Cafwyd cyfarfod ag eneiad anarfeol arno. Dymuna gyfeillion y Parch a Mrs Roberts bob bendith iddynt areu gweinidogaeth.

GWELLHAD BUAN - Dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs Pritchard, Tŷ Newydd ar ôl arhosiad yn yr ysbyty.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR - Nos iau, Hydref 2 cafwyd Noson Goffi gyntaf y tymor. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan y llywydd, Mrs N. Roberts, a rhoddodd groeso cynnes i aelodau newydd a hen. Anfonwyd cofion at y chwiorydd sydd yn wael gartref ac yn yr ysbyty. Balch oeddyr o groesawu Mrs C.A. Williams, Venice a'i llongyfarch ar ei phen-blwydd yn 90 oed. Cyflwynwyd blodau iddi ar ran y chwiorydd oedd yn bresennol gan y llywydd. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Gaynor Williams, Penterfyn a Mrs Myfi Roberts, 4 Tai Plastirion. Diolchwyd iddynt gan y llywydd, hefyd diolchodd i'r ysgrifennydd Mrs Beryl Thomas, Gerallt a Mrs Mair Jones Ogwen, y trysorydd, ac i bawb arall am eu ffyddlondeb. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 6 am 7 o'r gloch.

UNDEB Y MAMAU - Y Deon Gwlad y Parch Ganon Alun Jones, Rheithor Llanberis oedd yn traddodi yr anerchiad yng ngwasanaeth i agor tymor 1980-81. o weithgareddau Undeb y Mamau yn eglwys Sant Mihangel yn ddiweddar. Y rheithor oedd yn arwain y gwasanaeth. Darparwyd lluniaeth ysgafn yn y rheithordy ar ôl y gwasanaeth gan Mrs V. Spratt a Miss A.C. Jones, Glanllyn a llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Williams, Y Rheithordy. Penderfynwyd bod cynnal noson goffi yn yr Ysgol Gynradd ar nos Fercher, Dachwedd 12 o 7.00pm-9.00pm er budd cronfa yr Athritis. Diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs Jones, Lyndale a Miss C.J. Roberts, Y Fron.

TWYLLLO MODRYB ANGELINA - Dyna deitl y ddrama a berfformir yn Ysgol Brynrefail ar nos iau, Dachwedd 27 gan gwmni drama Llanberis. Bydd posteri yn ymddangos ar fyrder a bydd tocynnau yn cael eu gwerthu. Bydd yr elw er budd Eglwys Sant Mihangel.

GŴYL DDIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF - Cynhaliwyd gŵyl Ddiolchgarwch yn Eglwys Sant Mihangel ar ddydd Sul a dydd Llun, Hydref 12 a 13. Y Rheithor a weinyddai yng ngwasanaethau'r

Cymun Bendigaidd, fore dydd Sul ac ef hefyd a arweiniai wasanaeth y plant brynhawn Sul pryd y cymerwyd rhan gan holl blant yr Ysgol Sul mewn darllen a chyflwynod eu rhoddion. Y Parch Richard Jones, Ficer Llanfairisgaer oedd yn canu'r Gosber ac yn pregethu nos Sul. Y pregethwr gwadd nos Lun oedd y Parch Ddr. Gareth Lloyd Jones, Porthaethwy a chanwyd y Gosber gan y Rheithor. Mr J.T. Morris, Erw Wen oedd yr organydd yn y gwasanaethau. Fel arfer yr oedd yr eglwys wedi ei haddurno yn hardd ar gyfer yr Ŵyl. Rhannwyd rhoddion i bensiynwyr dros bedwar ugain oed ac i'r cleifion ac aed a rhoddion y plant i Blas Pengwaith, Llanberis.

DAMWAIN - Tra yn mynd i Eglwys Sant Mihangel i Ŵyl y Diolchgarwch nos Lun, Hydref 13 cyfarfu Mss C.J. Roberts, Y Fron, â damwain fiin drwy syrthio a thorri ei choes. Aed a hi i'r ysbyty ym Mangor ond da yw deall ei bod wedi dod adref ac yn gwella yn foddhaol.

GWAELEDD - Pan ar fynd i'r wasg daeth y newydd fod Mr T. Jones, 6 Rhos Rug wedi ei daro yn wael ond da yw deall ei fod yn gwella a dymunwn iddo adferiad llwyr a buan.

CYDYMDEIMLAD - Estynnwn ein cydymdeimlad â Miss E. Williams a Mrs R. Williams, Gwydryn Newydd ar farw perthynas agos iddynt yn y Felinheli yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR - Nos Fawrth, Hydref 14 cyfarfu Cangen Llanrug o Merched y Wawr yn yr ysgol gynradd gyda Miss Phyllis Ellis yn llywyddu. Sgwrs a sleidiau ar deithio a gafwyd y noson hon. Miss Mat Pritchard, fu ar daith yng Nghanada, yn ddiweddar, oedd y wraig wadd. Sgwrsiodd Miss Pritchard yn gyffredinol i ddechrau am Ganada, yr ail wlad fwyaf yn y byd, a hefyd y wlad fwyaf gwag yn y byd gyda phoblogaeth ar gyfartaledd yn ddau i bob milltir sgwâr.

Wedi sgwrs ddiddorol ac addysgiadol dangoswyd inni sleidiau o Toronto, Ottawa, Montreal a Quebec, y lleoedd yr ymwelodd Miss Pritchard â hwy. Ym marn y siaradwr Quebec yw'r harddaf ohonynt. Diffr oedd gwrandio ar brofiadau diddorol y teithiwr. Diolchwyd i Miss Pritchard gan Mrs Lovatt a Mrs J. Williams. Paratowyd paned o de gan Mrs Davies Plas Gwyn; Mrs Horman, Venice House; Mrs Jones, Ogwen; a Mrs M. Roberts, Plas Tirion Terrace; a diolchwyd iddynt gan Mrs Nancy Roberts, Anedd Wen.

Enillydd y raffl oedd Mrs V. Barnard. Croesawyd Mrs Prescott yn ôl, wedi iddi fod yn yr ysbyty yn cael triniaeth lawfeddygol. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 11 pryd y ceir sgwrs gan Mrs Helen Ramage ar 'Tai Dafydd.'

Y SEINDORF A'U CEFNOGWYR AR EU Ffordd I LUNDAIN



BETWS GARMON

PRIODAS - Priodwyd Miss Eirian Williams, Tŷ'n Weirglodd a Mr Idris Evans, Garreg Wen, Talwrn, Môn ddydd Sadwrn, Hydref 11. Ymgartrefant yn y Garreg Wen.

Dymunir pob hapusrwydd iddynt. **PEN-BLWYDD YN 80** - Llongyfarchiadau i Mrs M.C. Jones, Bryn Afon ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 ar Hydref 4.

ADLONIANT ^{gan} IWAN ROBERTS

Bûm yn sôn ychydig y mis diwethaf am y grŵp gwerin 'Ar Lôg'. Daeth newyddion i law eu bod yn bwriadu cyhoeddi record fer cyn diwedd yr hydref ar label cwmni Dingle's, Llundain. Y brif gân ar y record fydd 'Yr Hen Dderwen Ddu', sy'n adanbyddus i rai ohonoch efallai fel un o ganeuon yr Hennesseys, grŵp a oedd yn boblogaidd yma yng Nghymru ar ddiwedd y chwedegau a dechrau'r saithdegau. O fwy o ddiddordeb i ni yn yr ardal yma efallai yw'r gân ar yr ail ochr, sef 'Llongau Caernarfon'. Gobaith y grŵp yw y bydd y record yma yr un mor llwyddiannus a'r record honno 'A day trip to Bangor' a ryddhawyd gan yr un cwmni y llynedd. Talwyd am y record honno, gyda llaw, gyda'r elw a wnaed o werthiant record hir gyntaf Ar Lôg, ac elw 'A day trip to Bangor' yn ei thro a dalodd am ail record hir Ar Log a'r record fer yma.

Bwriad gwreiddiol y grŵp oedd cyhoeddi cyfieithiad o'r gân werin adnabyddus 'Tra bo Dau', ond nid oeddynt yn hapus gyda'r recordiad, na 'chwaith gyda'r ffaith eu bod wedi ceisio cyfieithu cân sydd mor adnabyddus fel cân Gymraeg. Mae'r grŵp yn parhau'n brysur iawn. Maent newydd ddychwelyd wedi treulio pythefnos yn Llydaw, ac mae ganddynt fis yn yr Almaen yn ogystal â chyfnodau yn Lloegr a'r Iseldiroedd o'u blaenau cyn y Nadolig. Mae trefniadau ar y gweill hefyd i wneud record arall yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Gwneir yr un trefniant eto fel gyda'u hail record. Caiff ei recordio yn Stiwdio Sain a'i chyhoeddi ar y cyd gan Sain a Dingle's.

Mae cwmni Sain hefyd wedi bod yn brysur yn rhyddhau nifer o recordiau byr yn ystod y misoedd diwethaf. Mae rhain yn rhan o'r gyfres o recordiau byr gan Sain, yn bennaf gan grwpiau sydd heb recordio o'r blaen, ac mae rhai ohonynt o ddiddordeb arbennig i ni yn yr ardal hon. Y record ddiweddaraf yw un gan Jaffync, grŵp o'r ardal yma a oedd yn un o'r perfformwyr yn Padarn Roc ym mis Gorffennaf. Y mae arni ddwy gân, 'Tân yn Llŷn' a 'Cythraul y Nos' (Sain 815 Pris £1.15).

Record arall, newydd ei chyhoeddi, yw 'Tro i'r Fro' gan Traed Wadin. (Sain 80E Pris £1.60). Deuawd o sir Fôn yw Traed Wadin ond mae un o'r aelodau yn hanu o'r Waunfawr. Maent yn adnabyddus ers rhai blynyddoedd ar hyd a lled Gogledd Cymru fel deuawd 'Country & Western' yn perfformio dan yr enw 'Tenderfoot'. Ers peth amser bellach maent yn perfformio'n fwyfwy yn Gymraeg ac fe newidiwyd yr enw i Traed Wadin. Rhyddhawyd eu record gyntaf rhyw ddwy flynedd yn ôl, sef 'Potel fach o win', record a fu'n boblogaidd iawn ar raglenni radio Cymraeg.

Yn gynharach yn y flwyddyn rhyddhawyd dwy record fer gan artistiaid eraill o ardal Caernarfon, un gan y grŵp Trydan (Sain 775) a'r llall gan Rhiannon Thomas (Sain 78) 'Roedd hithau, fel Jaffync, yn un o'r perfformwyr yn Padarn Roc.

Hoffwn droi am funud o fyd y

mis Hydref bu dwy ffilm Gymraeg yn cael eu dangos yn Theatr Gwynedd, Bangor fel rhan o 'Wyl '80', gŵyl ddrama deithiol flynyddol Theatr Cymru.

Gwobrwywyd sgript y ffilm 'Teisennau Mair' yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, a'i hawdur yw Iwan Meical Jones, llyfrgellydd ifanc o Aberystwyth. Mae'r ffilm yn ymwennu â hanes bywyd merch ifanc, uchelgeisiol yn byw yng nghefn gwlad Gwynedd yn ystod y ganrif ddiwethaf. Merch ydyw sy'n anfonlon ar ei byd ac yn benderfynol o ddod yn ei blaen. Defnyddia holl ystrywiau merch i geisio cyrraedd ei nod ac yn y broses dinistria fywydau dau ddyn.

Marged Esli sy'n portreadu'r prif gymeriad a J.O. Roberts a Cefin Roberts yw'r ddau brif actor arall. Cyfansoddwyd cerddoriaeth yn arbennig ar gyfer y ffilm gan Dulais Rhys.

Stori am ferwr byd rasio moduron yw'r ail ffilm 'Newid Gêr'. Mae'n ymwennu â'r berthynas rhwng cystadleuwyr yn ogystal â thyndra teuluol yn dilyn dmawain mewn ras. Mae yn y ffilm nifer o olygfeydd dramatig o geir yn gyrru'n wyllt ar hyd ffyrdd troellog. Fe ffilmwyd y cyfan o gwmpas pentref Llanilar ger Aberystwyth, a chafwyd cymorth Clwb Moduro Aberystwyth. Aelodau'r clwb sy'n gyfrifol am yr holl olygfeydd

BETH AM DDOD I GYSTADLU I Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Manylion gan Emlyn
Jones, Bethesda 600846
neu

BETH AM DDOD I
FWYNHAU'R WLEDD
yn YSGOL DYFFRYN
OGWEN, BETHESDA
Nos Wener, Tachwedd
14, 6.30 pm. Sadwrn,
Tachwedd 15,
12.30 a 6 pm.

ralio cyffrous. Y brif actores yw Sue Jones Davies - enw anghyfarwydd i'r mwyafrif ohonom cyn hyn. Hwn oedd y tro cyntaf iddi actio yn y Gymraeg, ond efallai fod rhai ohonoch wedi ei gweld yn y ffilm ddadleuol 'The Life of Brian', gan griw Monty Python. Y prif actorion eraill yw Dewi Morris, William Huw Thomas a Dafydd Hywel.

Erbyn hyn mae 'Gŵyl '80' wedi symud ymlaen ar ei thaith o gwmpas theatrau eraill Cymru, ond fe gawn gyfle arall i weld y ffilmiau yma yn ôl llefarydd ar ran y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg. Mae'r Bwrdd wedi gwneud cais am gymorth ariannol er mwyn trefnu sinema deithiol i ddangos y ddwy ffilm yma. Maent yn ffyddiog y bydd y sinema deithiol yn cychwyn ar ei thaith yma yng Ngwynedd mis Ionawr nesaf. Mae posibilrwydd hefyd y bydd y ffilmiau yn ymddangos ar y teledu yn y dyfodol agos.

CEUNANT

DIOLCHGARWCH - Cynhaliwyd gwasanaeth o Ddiolchgarwch yng nghapel Ceunant prynhawn Llun, Hydref 20. Cafwyd pregeth gan Mr William Arthur Evans, Bangor. Cymerwyd rhan hefyd gan Einir a Gwenno Parri, Morwel.

DYMUNIADAU DA - Ymddiheurwn i Caroline Jones, Tanhafodlas am fod mor hwyr yn ei llongyfarch am ei llwyddiant yn yr arholiadau safon 'O'. Deallwn ei bod ar hyn o bryd yn dilyn cwrs yn y Coleg Technegol, Bangor. Dymunwn pob llwyddiant iddi.

CATHOD YN Y BEIBL

Ein diolchiadau i Mrs Evans, Glyn Arthur, Penisa'rwaun, am anfon atom gyda'r wybodaeth am gathod y Beibl.

Dywedwyd yn "Wyddoch Chi" tud 19 o rifyn Hydref, bod y gair cŵn yn ymddangos 18 o weithiau yn y Beibl "ac nid oedd sôn am gathod o gwbl." Mae Mrs Evans am i chi ddarllen Llyfr y Proffwyd Ezeia, Pen. 13. Ad. 22: "A'r cathod a gydatebant yn ei gweddwdai hi..." a Phen. 34. Ad. 14. "Ac anifeiliaid gwylltion yr anialwch, a'r cathod, a ymglyfarfyddant..." Diolch yn fawr i chwi, Mrs Evans.


EIRA CYNTAF Y TYMOR AR ERYRI

Yr eira yma gwelwyd yr eira cyntaf ar Eryri ar Hydref 7. A yw hyn yn gynnar? W.l., nac ydy' a dweud y gwir.

Daeth yr eira cyntaf ym 1979 ar Fedi 22 ac ar Fedi 28 ym 1974. Ym 1963 ar ôl gaeaf eithriadol o galed bu rhaid disgwyl tan Tachwedd 13 i weld copaon y mynyddoedd yn wyn. Ym 1977 Tachwedd 4 oedd y dyddiad. Felly ceir amrywiaeth o 7 wythnos ond yr amser arferol i ni gael rhagflas o'r gaeaf a gweld eira ar y Carneddau a'r Wyddfa yw yn ystod y tair wythnos gyntaf ym mis Hydref.

Aeth y gwenoliaid i ffwrdd yn gynnar; y mae digon o aeron ar y coed a'r llwyni ac mae adar fel coch dan aden a chases y ddrycin wedi ymfudo yma o'r gogledd oer yn fuan eleni. A yw hyn yn arwydd o dywydd oer y gaeaf yma? Amser yn unig a ddengys.

Wrth droed yr Wyddfa...



BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS ^{Ffôn} 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty
Trwyddedig

A la Carte

Bwyd Basgedi

Bwyd Môr Ffres

Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn

Partion

Ciniawau

Gwleddoedd

Priodasau

Lle i 110 ar y tro
Ffoniwch i fod yn saff o le

DIWEDD Y DAITH

Yn hwyr y pumed niwrnod, daethom i Raeadr Virginia: pedair acer o ddŵr yn disgyn yn genllif am dri chan troedfedd. Golygfa brydferth iawn. 'Doedd dim siawns i ni gael ein sgubo dros y rhaeadr, oherwydd i ni glywed chwyrnu'r dŵr filltiroedd i ffwrdd. Yr oedd Chalkie hefyd, yn bur ofnus; yn gwrthod ymddiried yn ei 'siaced achub' o diwb car, ac yn gollwng y rafft i lawr yr afon yn ofalus iawn, gan afael yn y coed a blygai drosodd o'r dorlan. Bu'n rhaid cerdded a chario o amgylch y rhaeadr.

Islaw Rhaeadr Victoria, mae'r afon yn bywiogi, os nad yn cynddeiriogi mewn mannau, wrth ruthro drwy'r Five Mile Gorge. 'Roedd y criw yn eithaf pryderus wrth wynebu'r rhan hon, ond wrth lwc, bihafiodd y ddwy rafft yn eithriadol o dda er gwaethaf y tonnau mawr.

Mae'r Nahanni yma, yn llifo drwy dri cheunant dwfn, a'u hochrau yn codi oddeutu'r afon am dair mil o droedfeddi. Clogwyni calchfaen anferth ydynt, a'r golygfeydd yn wych, yn enwedig i lygaid dringwyr. Ond er ei bod yn demtasiwn edrych ar y golygfeydd o'n hamgylch, rhaid oedd bod yn ofalus gan fod yr afon yn llifo dros nifer o eirw (rapids). Er hynny, cliriwyd y geirw i gyd heb anffawd, gan gynnwys y gwaethaf ohonynt; Hell's Gate. Od fel y ceir "Hell's" rhywbeth neu'i gilydd ar bob afon chwyrn. Buon yn ffodus yn y rhan hon o'r afon i gael dringo Craig y Pulpud; clogwyn saith can troedfedd o uchel yn tor-sythu uwchben gwely'r afon.

Wedi rafftio'r geirw hyn, cawsom wersyllu un noson yn Deadmen Valley; lle a ddaeth yn enwog ar ddechrau'r ganrif pan ddarganfuwyd cyrff y ddau frawd McLeod yno ym 1908. Nid oedd pen ar yr un o'r ddau gorff! Yn dilyn y darganfyddiadau hyn, lledodd chwedlau rhyfedd am yr ardal, a chlywyd sôn am frodorion ffrynig neu'hyd yn oed y creaduriaid anelwig a elwir yn Sasquatch neu Bigfoot. Ond chwedlau papur newydd oedd y rhan fwyaf ohonynt, ac y mae'n siŵr fod esboniad digon cyffredin dros y cyrff di-ben. Rhaid cofio fod llawer un wedi ei ladd yn yr ardal hon yn gynnar ar ddechrau'r ganrif; rhai ohonynt yn llwgu i farwolaeth, eraill yn cael eu lladd gan eirth, ac eraill drwy ddamwain. Yn aml iawn, byddai misoedd wedi mynd heibio cyn darganfod y cyrff (a

hefyd y pennau!). Mae Deadmen Valley yn ddyffryn prydferth, gyda'r mynyddoedd yn ymestyn i'r gorwel, a'r coedwigoedd yn cyrraedd i lawr i'r terasau gleision ar hyd lannau'r afon.

Islaw'r First Canyon (sef yf olaf o'r tri cheunant wrth rafftio i lawr yr afon) mae'r dyffryn yn lledu allan mewn ardal a elwir yn Splits. Yma, mae'r afon yn dilyn nifer o sianelau bas am tua 30 i filltiroedd, a gwell aros gyda phrif gerrynt yr afon. Yn y Splits y cawsom ein hanffawd gyntaf: 'Puncture' ar un o'r cannoedd o 'deadheads' (coed marw) sy'n cael eu cario i lawr yr afon. Cafodd y rafft ei thrwsio gyda darn o rwber o 'bostik', ac yr oedd yn ddigon effeithiol i ni fedru rafftio'r gweddill o'r siwrnai i Nahanni Butte. Yr oeddem wedi teithio 300 i filltiroedd mewn deng niwrnod!


Pentref cyhan o Indiaid yw



Gorffwys ar ôl cerdded a chario'r rafftau o amgylch Rhaeadr Virginia

RAFFTIO'R SO

gan
Alun Huws
Rhan 2



Nahanni Butte gydag un ysgol fechan. Yno, cawsom ddefnyddio'r radio-telffon i holi am awyren i'n cario i Fort Simpson. Oddi yno, ffawdheglu i Edmonton ac ymlaen i Calgary. Dyna ddiwedd un o'r teithiau mwyaf diddorol yn fy mywyd; ardal brydferth yr hoffwn yn fawr iawn ddychwelyd iddi rhyw ddiwrnod.

O.N. Mae llyfr diddorol iawn wedi ei ysgrifennu ar hanes cynnar archwilio Afon South Nahanni sef 'Dangerous River' gan R.M. Patterson.



Gerllaw Deadmen Valley

Gwesty Dolbadarn

Tŷ
Rhydd-
Feddiant

Llanberis

Perchennog
Aneuryn
Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



EVANS VEHICLE BODY REPAIRS & PANEL BEATERS CLWT-Y-BONT

Ffôn: LLANBERIS 611

am drwsio
TOLCIAU, WELDIO, SPREIO, ATGYWEIRIO
wedi damwain, ac ati.

CEIR AIL-LAW AR WERTH

UTH NAHANNI



Giât y Nahanni a Chraig y Pulpud — Clogwyn 700' o uchel.



Rafftio'r tonnau gwyllt yn 'Hell's Gate'.

LLUN: PWY? PRYD? BLE?

Daeth gwybodaeth am y llun oddi wrth Miss Laura Jones, 9 Craig Dinas. Llun o Ysgol Babanod Bryn'refail ydyw, ond nid yw Miss Jones yn cofio enwau'r athrawesau sy'n y llun. Dyma enwau rhai o'r plant — ond nid pob un:— John Ffoulkes (Penllyn); Dilys Cadwaladr; Myra Ffoulkes, John Evans, Sally ? (Llain Hir); Teddy Mathews; Gwilym Ellis (Bryn); Owen Ffoulkes Roberts (Bronallt); Willie Ifor Williams (Glan Gors); Ritchie Parry; Jennie Davies (Ffrwd Goch); Owen Morris Ellis (Penrallt); David Emrys Jones; Morfudd Lewis (Mountain View); Bob Owen (Pen Clogwyn); Maggie Jane Owen (Bryn Parc); Griffith Madoc Ellis; Jim Smith (Y Bryn); Alun Ellis (Penrallt); John Henry Parry (Rallt); Jennie Williams (Creigle) a Cyril Davies (Llwyn Celyn).

ATGOFION AM EISTEDDFODAU PENISARWAUN gan Mrs M.G. Williams, Bethel.

Gan fod Eisteddfod Penisarwaun, wedi ail ddechrau eto, a'i chynnal yn ôl hen arfer yng nghapel y Glasgoed, daeth â llawer o atgofion yn ôl

Mae yn fy meddiant ddarn o lechen (wedi ei chael ers amser bellach gan Mrs Nellie May Pritchard, Penisarwaun) ac arni mae'r geiriau "Chweched gylchwil lenyddol a Cherddorol Glasgoed, Chwef. 19. 1887". Mae yn fy meddiant hefyd, rai o ddyddlyfrau y diweddar Barch R. Pryce Ellis (fy nhad wedi eu cael gan ferch y diweddar Barch Ellis). Am Chwefror 19, 1887, fe ysgrifennodd Mr Ellis "Gwener (nos) a Sadwrn, Chwef 18 a 19 1887) Cyfarfodydd y Gystadleuaeth yn Glasgoed. Llywyddion:— Daniel Evans Ty Capel, R Pryce Ellis, Parch R i c h a r d

Bontnewydd. Ysgrifennydd:— Thomas Rees Owen. Trysorydd: David Thomas, Bron-y-Gaer (Taid John Owen Penrhyn Bach.

Beirniaid:— Y Llywyddion, ys ysgrifennydd (ar rai o'r safonau) John Thomas Llanwrtyd; Miss Rowlands Board School Penisarwaun; Francis Pritchard Waun Rhythallt, a Richard Jones, Arthur Terrace. Datgeinydd:— Miss A. Blodwen Williams, Cae Hywel. Accompanist:— David Parry Llanrug. Mae gennyf gof byw am Daniel Evans yn dod am dro i'r ardal, ar ôl mynd i fyw i'r Iwerddon. Cof byw hefyd am Francis Pritchard, gan ei fod yn byw yn agos imi. Bu'n gyfeiliydd yng nghapel y Glasgoed.

Clywais lawer o sôn am y Parch

R. Pryce Ellis hyd y gwn mae ei ferch Mrs Enid Maldwyn Jones yn byw ym Machynlleth.

Bu Miss A.B. Williams (Mrs Roberts Cae Hywel wedyn) a Thomas Rees Owen a'i deulu yn aelodau selog yn y Glasgoed. Cof am Mrs Roberts yn cyfeilio. Cof iawn am Thomas Rees Owen yn flaenor, ysgrifennydd yr eglwys, ac athro Ysgol Sul, mae un ferch iddo yn fyw heddiw — Mrs Katie Thomas, Vaynol Terrace, Deiniolen

Wrth ddarllen y cofnodion uchod, mae llawer o bwyntiau eraill ynglŷn â'r Eisteddfod yn dod i'r cof. Yr oeddwn yn ysgrifennydd yr Eisteddfod ar y pryd. Tua'r 20fed o Chwefror, cafwyd eira mawr, ceisio cerdded i'r capel, y rhan amlaf ar ben y cloddiau ofni y buasai rhai o'r beirniaid neu gystadleuwyr wedi dod, megis Bob Ellis, Pentrefoelas, Bob Lloyd, y Bala (ar ei foto beic), Henryd Jones, Conwy, Katie Lewis Brown, Wythawd o Lanberis, ar adrodd Christmas Jones, Penygroes, ei ferch Ethel Jones, Jennie Williams, Garreg Fawr, Waunfawr, a'i phriod Lewis R. Lewis (tad a mam Eigra Lewis Roberts), Twm Dafarn a Jack Dafarn. Jack Maldwyn yn canu penillion, ac wrth gwrs Huxley Thomas yn cyfeilio.

Yn ddiweddarach Perisfab, Hywel Jones Penygroes, Beti Williams Jones, Caernarfon,

Nancy Roberts (Nancy Cali) a llawer eraill.

Tybed faint heddiw sy'n cofio Gwladys Thomas Stabla, yn ymgeisio, y lle yn ddistaw, gallech glywed pin yn disgyn, a Gwladys yn canu 'Sul y Blodau', (Owen Williams) a hitha yn cael 'encore' peth na ddigwyddai mewn Eisteddfod ond cafodd ganiatâd y beirniaid i ail ganu.

Gwnaed cadair (model) gan Richard Griffith (Dic Pencraig) ar gyfer Eisteddfod 1962, ac enillwyd hi gan fy niweddar briod am stori fer, ac yn yr Eisteddfod ddiwethaf fy wyres Gwen yn ennill tlws yr Eisteddfod ar 'Lyfr Lloffion'. Gobeithio yr aiff yr 'Eisteddfod' yma ymlaen eto o nerth i nerth, fel y byddai yr hen rai.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

OSMOND W. SHAW



Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio
BWLCH UCHAF

DEINIOLLEN
Ffôn Llanberis 545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch
cyn 10 o'r gloch

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

O SIAMBAR SELWYN

Croeso i'r Siambar. Efallai y bydd hi'n gynhesach yma tros y gaeaf, nag allan ar y Llannerch agored.

Profais ddau gyd-ddigwyddiad diddorol yn ystod y mis.

Geneth ifanc yn adrodd soned adnabyddus 'Y Llwynog', R. Williams Parry, i mi yn Eisteddfod Melin-y-Coed, a minnau yn fy sylwadau yn cyfeirio at y ffaith mai dim ond dwywaith yn unig y bu i mi weld llwynog yn ei gynefin megis. Ychwanegais y byddwn yn barod iawn i deithio cryn bellter pe gwyddwn i sicrwydd y gwelwn "yr untroed oediog, a dwy sefydlog fflam ei lygaid".

Teithio adre y noson honno, ac wrth fynd heibio i Ddyffryn Mymbyr, dyna lle 'roedd o - Siôn Blewyn Coch ei hun, "a dwy sefydlog fflam ei lygaid" yn fflachio yng ngolau'r car yn disgwyl ei gyfle i groesi'r ffordd. Do "digwyddodd, darfu megis seren wib."

A dyma'r cyd-ddigwyddiad arall. Mynd i Gonwy un prynhawn Sadwrn yn ddiweddar i wyllo Caernarfon a Chonwy yn chwarae pêl-droed. Digwydd sôn wrth y wraig fel yr arferwn chwarae'n gyson ar Forfa Conwy sawl blwyddyn yn ôl fel golgeidwad i'r tîm lleol. Cofio'r tro y bu i'r enwog Tommy (T.G.) Jones sgorio penalti heibio i mi, a minnau'n dawel fach yn ymfalchio'n y ffaith fod gŵr mor enwog wedi plannu'r bêl heibio i mi, er y byddwn yn ymfalchio mwy petawn wedi llwyddo i arbed y gic gosb reit siŵr.

Ta waeth - tra 'roeddwn yn gwyllo'r gêm hon ar Forfa Conwy yn ddiweddar, pwy ddigwyddodd ddod i sefyll wrth f'ochor, a holi ynglŷn â'r sgôr ond Tommy Jones ei hun.

Na, 'doedd o ddim yn fy nghofio i - y golgeidwad nerfus a chwaraeai i Gonwy ers talwm, ond 'roedd o'n cofio fel y byddai tua dwy fil o bobl yn gwyllo gêm rhwng Pwllheli a Chonwy ar y Morfa.

Na, 'doedd o ddim wedi dod i Gonwy yn un swydd i weld gêm bêl-droed chwaith - digwydd pasio 'roedd o y prynhawn hwnnw. "Fydda" i byth yn mynd i gemau rŵan, dim ond gwyllo ambell i gêm ar y teledu. Mae

dros dair blynedd er pan fûm i mewn gêm bêl-droed".

Ac wedi tua pum munud o wyllo Caernarfon a Chonwy, fe ddiplannodd y cyn chwaraewr cyd-wladol, mewn car sborts cyflym i gyfeiriad Bae Colwyn - bron na ddwedwn 'megis seren wib.'

Fe gostiodd Neuadd Goffa Bethel lawer mewn arian a llafur i drigolion y fro, pan oedd Bethel yn bentre cymdogol tua deugain mlynedd yn ôl. Fe gostiodd fwy i'r bechgyn a roes eu bywydau dros eu gwlad.

Loes i'm calon i yw sylwi ar y fandaleiddio sy'n digwydd o gwmpas y neuadd. Mae'n amlwg na wŷr y glaslanciau sy'n dringo i'w tho, yn ei phledu â cherrig, ac yn gadael sbwriel a thuniau a photeli cwrw ar ei thir, am aberth y rhai a gollodd eu bywydau. Ni chlywsant chwaith am haelioni ac ymdrechion rhai fel y diweddar John Ifor Jones a'i gyd-ardalwyr, a fu'n gweithio'n ddiwyd er mwyn sicrhau neuadd bentref deilwng i goffâu'r rhai a roddodd eu bywydau dros eraill.

Loes pellach i'm calon yw sylweddoli fod rhai o'r glaslanciau anystywalit hyn yn mynnu aflonyddu ar y gweithgareddau sy'n cymryd lle yn y Neuadd. 'Rydym ar drothwy dydd Cadoediad arall. Mae'r cofio'n hen. Ond nid yn rhy hen gobeithio i anghofio mai Neuadd Goffa yw neuadd Bethel, ac y dylid ei pharchu, a pharchu'r tir sydd o'i chwmpas. Mae Mudiad Cristnogol a Gŵyr Ifanc yn cyfarfod bob nos yn y Neuadd, ac 'rwy'n siŵr y byddant hwy yn barod iawn i sicrhau y diogelir ac y perchir yr adeilad hefyd.

Yn wir, fe ddylai pawb o drigolion y fro fod yn barod i wneud hyn, oherwydd wedi'r cyfan, mae cyfran o arian y trethdalwyr yn cael ei roddi'n flynyddol tuag at redeg y neuadd.

Meddai Nain - "Ydach chi wedi trio rhywfaint o'r silicon chips 'ma eto?"

Hwyl i chi,
Selwyn

YN EISIAU

Cadair 'Buggy' i blentyn - un 'Maclaren', 'Mothercare', neu 'Cindico'.

Mary Elliott,
3 Bryn Eglwys, Penisa'rwaun

YSGOL DOLBADARN 1930



Diolch yn fawr i Mrs M.L. Griffiths, Ael-y-Bryn, Brynrefail am y llun diddorol o Safon 3, Ysgol Dolbadarn, Llanberis, tua 50 mlynedd yn ôl. Yr athrawes oedd Miss Hughes a arferai ddod i'r ysgol ar feic modur!

Rhês ôl: Ronald Morgan; Tom Peris; Goronwy Wyn; Goronwy Glyn; Philip?; Alun Cwm Ucha; Owen? Ynys

Wen.

3edd Res: Iola, Ceunmant St; Elinor; Marian; Myfi; Eurwen Hughes, Stryd Siarlot; Moira, Caer Frân; Jenny Pierce, Manllwyd Ucha; Myfanwy Pritchard, Central Garage; Annie Mair Wood, Llainwenuchaf; Alice Peris Pritchard, Birmingham House;

Ail Res:

: Elis Goronwy, Ffordd Capel Coch; Robat, Craig y Nos; Tomos Richard; Wil Williams, Clegir; Hugh Ronald Roberts; Irfon, Stryd Tomos; Jacky (Prince of Wales); David Price.

Rhes Flaen: Wil, Stryd Goodman; Bob, Coed Mawr; Robbie Williams, Tŷ Capel Coch; Eric Tolman; Gwilym Wyn, Ty'n y Gadlas; Dafydd Parry, Llainwen Isaf;

Pwy sydd yn gallu llenwi'r bylchau? Beth am yrru atom gyda'r enwau sydd ar goll? Neu beth am i ni glywed hynt a helynt rhai o'r bobl yn y llun? Faint ohonynt sydd yn dal i fyw yn Llanberis? Beth yw hanes y rhai a symudodd i ffwrdd? Cofiwch adael i ni wybod.

TOCYNNAU BYSIAU RHAD

Datganiad

Ymddengys fod cryn gamddealltwriaeth wedi codi ynglŷn â Chynllun Teithio Rhad y Cyngor ar gyfer yr Henoed a'r Methedig, a chyhoeddwyd llawer o ddatganiadau camarweiniol. Tybiodd rhai fod y Cyngor yn dirwyn y cynllun hwn i ben yn hollol fympwyol ym mis Tachwedd er mwyn cynilo arian.

Fodd bynnag, y mae'r ffeithiau mewn gwirionedd fel a ganlyn:

Byth oddi ar gychwyn y cynllun ym 1974, gwnaed gwelliannau iddo bob blwyddyn yn raddol. Yn ystod blynyddoedd cyntaf y cynllun, argraffwyd disgiau gostyngiad a'u dosbarthu, gan godi gwerth y disgiau o flwyddyn i flwyddyn.

O ganlyniad i'r trafodaethau a gynhaliwyd â'r Cwmnïau Bysiau, newidwyd y cynllun y llynedd gan ddosbarthu tocynnau yn lle disgiau, a chyda'r tocynnau hyn fe gâi pensiynwyr a phobl fethedig deithio ar rai bysiau am hanner y pris arferol. Bu'r cynllun hwn yn weithredol oddi ar fis Medi 1979 hyd fis Mawrth eleni, ac nid oedd y gostyngiad ar gael yn ystod rhai oriau penodol o'r dydd.

Cafodd y cynllun hwn groeso a derbyniad da, a'i werthfawrogi gan lawer. Fodd bynnag, awgrymodd nifer mai peth mwy buddiol fyddai cael gostyngiad o'r fath yn ystod misoedd yr haf, pan fyddai modd manteisio i raddau helaethach ar y trefniadau hanner-pris. Dywedwyd hefyd fod y cyfyngiadau ar yr oriau teithio a ganiateid, yn enwedig rhwng 3.30 a 5.30 o'r gloch y prynhawn, yn rhwystro nifer o bobl rhag manteisio'n llawn ar eu tocynnau.

Derbyniwyd yr awgrymiadau hyn, ac o ganlyniad, dosbarthwyd y tocynnau yn

gynharach eleni, fel y gellid eu defnyddio rhwng 1af o Fai a'r 30ain o Dachwedd a'u defnyddio bob adeb o'r dydd ac eithrio ychydig iawn o amserau penodol.

Cost y cynllun i'r Cyngor ym 1979 oedd £40,000 ac er gwaethaf y pwysau aruthrol ar y Cyngor hwn, a phob Cyngor arall, i gwtogi ein gwariant yn ôl y cyfyngiadau llym iawn a osodwyd arnom gan y Llywodraeth, cynyddu ein gwariant ar y gwasanaeth hwn a wnaethom i £56,000. Gwelir erbyn hyn fod y nifer o docynnau a ddosbarthwyd yn llai na'r disgwyl, felly y mae modd i'r Cyngor estyn cyfnod dilysrwydd y tocynnau hyd 31ain o Ragfyr, gan gynnwys wrth gwrs dymor y Nadolig, a fuasai fel arall yn peri pryder i lawer. Ymhellach, rydym yn ceisio trefnu trafodaethau brys â'r Cwmnïau Bysiau er mwyn penderfynu sut y gellir cynnal gostyngiadau pellach a'r cyllid sydd ar gael.

Testun gofid i'r Cyngor yw fod y datganiadau camarweiniol a gyhoeddodd fod y Cyngor wedi pednerfynu rhoi terfyn ar y cynllun hwn wedi peri i lawer o bensiynwyr dybio na fydd eu tocynnau yn ddilys bellach, er y gallant eu defnyddio mewn gwirionedd at ddiwedd y flwyddyn o leiaf.

Ni fyddai dim yn fwy wrth fodd y Cyngor na chael gwneud trefniadau i alluogi i'r holl bensiynwyr a phobl fethedig deithio yn rhad ac am ddim, ond nid yw hyn yn bosibl, gwatha'r modd. Bid a fo am hynny, cred y Cyngor mai ar draul y Llywodraeth Ganolog yn hytrach na'r dreth leol y dylid trefnu gostyngiadau i bensiynwyr ac eraill.

D.L. Jones
Prif Swyddog Gweithredol
Cyngor Burdeisdref Arfon

Lle GWYCH Ar Gyfer Noson Allan!

GWESTY'R FOELAS (PREIFAT) LLANRUG

(Perch. Richard a Meirwen Thomas)
FFÔN: CAERNARFON 4652

**PRYDAU BASGED BLASUS
BAR CLYD Â DEWIS DA O DDIODYDD**

YR 'EGLWYS FACH' YN GANT OED

Gan mlynedd yn ôl i fis Medi sef Medi 10, 1880, yr agorwyd drysau Eglwys St Mair (neu'r 'Eglwys Fach' fel y'i hadwaenir yn lleol) Dinorwig am y tro cyntaf. I ddathlu'r garreg filltir hanesyddol yma mae'r Sul dyddiedig Tachwedd 2 wedi ei neilltuo fel Sul y Dathlu. Dyma fydd trefn y gwasanaethau ar y Sul hwnnw:

10.00 Gwasanaeth y Cymun.

Gweinyddir gan Ddeon Bangor. Y Tra Pharchedig J. Ivor Rees, BA 6.00 **Gosber**

Y Parch Idris Thomas, Dip. Diw.

Pregeth gan y Parch R. Glyndwr Williams, BA, BD

Y Fendith gan y Parch Canon Alun Jones, BA Deon Gwlad Arfon.

Organyddes: Miss Mair Foulkes.

Yn ogystal â hyn cyhoeddir llyfryn bychan wedi ei olygu gan Mr Glyn Thomas o Ddinorwig i gofnodi'r dathliad hanesyddol yma. Yn y llyfryn, croniclir peth o hanes yr Eglwys dros y can mlynedd diwethaf. Diddorol yw hanes diwrnod agoriadol yr eglwys a gofnodwyd yn nhudalennau papura wythnosol y cyfnod, sef 'Yr Herald Gymraeg' a'r 'Genedl Gymreig'. Agorwyd yr eglwys gan y Gwir Barchedig J. Colquhoun, Esgob Bangor - Albanwr wedi dysgu Cymraeg. Gyda llaw, ef oedd yr Esgob cyntaf ym Mangor a allai siarad Cymraeg ers 1715. Eraill a gymerodd ran yn y gwasanaethau oedd y Parchn. Mr Williams, Trawsfynydd; Mr Davies, Lerpwl; Mr Roberts, Saron, Bethel. Deallwn bod y pregethau yn rymus a'r cynulleidfaoedd yn lluosog iawn. Yn ychwanegol at hyn trefnwyd gweithgareddau ar gyfer y plant. Dyma sydd wedi ei gofnodi am hyn yn 'Yr Herald Gymraeg 1880': "Ar ôl te aeth y plant i gae cyfagos, a chaed ymrysonfa neidio a rhedeg, a chwaraeon diniwed eraill". Yna yn 'Y Genedl Gymreig' ceir y frawddeg: "Am dri o'r gloch prynhawn ymgasglodd tua 60 o aelodau yr Ysgol Sul ynghyd i 'Blue Peris' i'r diben o gyfraniogi o wledd o de a bara brith". Trist yw meddwl bellach nad oes 60 o Gymry Cymraeg yn byw yn Ninorwig heb feddwl am gymaint a hynny o blant. Mae'r holl wybodaeth ddiddorol yma a llawer mwy wedi ei groniclo yn y llyfryn yma a fydd ar gael yn ystod Sul y Dathlu. Hefyd yn gynnwysiedig ynddo, fe geir atgofion y Parch R. Glyndwr Williams (Rheithor presennol Plwyf Llanbeblig, Caernarfon) o'i gyfnod fel Ficer y plwyf o 1955 hyd at 1962. Hefyd ceir peth ffrwyth ymchwil o gefndir hanesyddol yr Eglwys gan y Parch Herbert Thomas, Llannor - gŵr sydd yn enedigol o'r ardal ag sydd a'i ddiddordeb o hyd yn ei fro enedigol. I gwblhau'r cyfan ceir casgliad o luniau diweddaraf o'r eglwys o eiddo Mr Clifford Davies, Deiniolen. Eisoes mae cronfa'r canmlwyddiant wedi ei sefydlu a dylid anfon unrhyw gyfraniad ariannol i Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir, Dinorwig, Caernarfon.

Bydd croeso i bawb o fro'r Eco i ymuno ag aelodau'r eglwys ar Sul y Dathlu.

YR ARGLWYDD CLEDWYN YNG NGHLWB ERYRI



Yr Arglwydd Cledwyn o Benrhos oedd y gŵr gwadd yng nghinio dathlu Clwb Eryri yn 25 oed. Yn y llun hefyd y mae swyddogion y clwb, Mr Rol Williams (ysgrifennydd), Brython Jones (llywydd), a Mr Ieuan Ellis Jones (trysorydd).

LLYFRAU NEWYDD YN Y LLYFRGELL

GOULD, S.B. - Pabo'r Offeiriad.
GRUFFUDD, Heini - Enwau i'r Cymry.

HUGHES, Idwal - Chwareli Dyffryn Nantlle.

Hyd Hanner Dydd.

LEWIS, Rob - Brith yw brethyn bywyd.

LLOYD, D. Tecwyn - Bore da, Lloyd, a chofnodion eraill.

MEINI SY'N LLEFARU a MYNWENTA.

MORGAN, Gerallt - Hwyl wrth holi am Gymru.

OPERATION Tân.

THEATR Y CYFRYNGAU.

CWM-Y-GLO

UNDEB Y MAMAU - Agorwyd tymor 1980-81 o weithgareddau Undeb y Mamau gyda gwasanaeth yn cael ei arwain gan y rheithor yn Eglwys Sant Gabriel. Rhoddwyd yr anerchiad gan y Parch Richard Jones, Ficer Llanfairisgaer. Yr organydd oedd Miss Ceridwen Hughes, Pool Street. Darparwyd lluniaeth ysgafn yn y Ganol-fan Gymdeithasol wedi'r gwasanaeth gan Mrs C. Owen Isfryn a Mrs D.G. Williams, Y Rheithordy a hi hefyd oedd yn llywyddu'r cyfarfod. Gwnaed coffa am Mrs M.E. Hughes, Craig y Don un o aelodau ffyddlon y gangen. Diolchwyd i'r gwesteion gan amryw o'r aelodau. Mrs J.E. Watkins, Dolwen oedd y wraig wadd yng nghyfarfod mis Hydref, a rhoes sgwrs ddifyr iawn ar wyliau a dreuliodd yn yr Eidal beth amser yn ôl a dangosodd sleidiau lliwgar iawn, a threuliodd noson ddifyr a diddorol. Mrs Watkins a Mrs Chick oedd y gwesteion a diolchwyd gan amryw o'r aelodau i'r ddwy am luniaeth ac i Mrs Watkins am ei sgwrs. Miss Ceridwen Hughes oedd y cyfeilydd ac arweinwyd y gwasanaeth gan y Rheithor. Terfynwyd y ddau gyfarfod gyda gweddi.

GŴYL DDIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF - Yn ôl y drefn arferol fe gynhaliwyd Gŵyl y Diolchgarwch yn Eglwys Sant Gabriel ar y trydydd dydd Sul a'r dydd Llun ym mis Hydref. Y Parch E. Trefor Jones, Ficer ym mhlwyf Rheithorol Caernarfon a weinyddai yr Offeren ac a bregethai fore dydd Sul a da oedd gweld cynifer yn bresennol ac yn enwedig y rhai ifanc. Arweinwyd gwasanaeth y plant gan Mrs H. Orritt, Moranedd a chymerwyd rhan gan holl blant yr Ysgol Sul oedd wedi eu haddysgu gan Mrs J.E. Watkins ac athrawon eraill yr Ysgol Sul. Cyflwynwyd rhoddion i Carys Williams, David Foulkes, Cynthia Orritt a Karen Foulkes am eu ffyddlondeb gan y Rheithor ac ef hefyd a roes anerchiad ar gyfer yr ŵyl. Yr organydd oedd Judith Orritt, Moranedd. Canwyd yr Osber gan y Rheithor a phregethwyd gan Mr J.H. Smith, Llanfairpwll, ysgrifennydd bwrdd Darllenwyr Lleyg Esgobaeth Bangor, cyn ysgol-feistr Ysgol Biwmares a chyn faer Ynys Môn. Y pregethwr gwadd nos Lun oedd y Parch R. Jeffrey Hughes, Ficer ym mhlwyf Rheithorol Caergybi a chanwyd yr Osber gan y Rheithor. Yr organydd yn y gwasanaethau oedd Miss Ceridwen Hughes, Pool Street. Addurnwyd yr eglwys yn hardd fel arfer a rhanwyd peth o'r rhoddion i'r cleifion.

FFAIR Y CYNHAEAF - Cynhaliwyd Ffair y Cynhaef hynod lwyddiannus yn y Ganol-fan Gymdeithasol o dan nawdd Eglwys Sant Gabriel a gwnaed elw sylweddol. Fe

ddymuna'r Rheithor ddiolch am gydweithrediad pawb a fu mor weithgar i wneud y Ffair yn un mor lwyddiannus.

MERCHED Y WAWR - Cyfarfu'r gangen leol o Ferched y Wawr yn y ganolfan gymdeithasol nos Fercher, Hydref 15, gyda'r llywydd, Miss Mat Pritchard yn y gadair.

Y gŵr gwadd oedd Mr Meirion Hughes, swyddog yn yr Adran Iechyd yng Nghaernarfon. Cyflwynwyd ef gan Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle.

Cawsom sgwrs ddiddorol dros ben ganddo ar y modd y gallwn warchod ein hiechyd ni ein hunain, a'n cyfeillion rhag llygredd yr amgylchfyd.

Dangosodd Mr Hughes sleidiau o leoedd yn ein hardal ni, fu gynt yn nodedig am odidowgrwydd eu golygfeydd, ond sydd erbyn hyn yn ddolur llygaid, gyda thomennwydd o ysbwriel yn eu anharddu. Arddiwedd y sgwrs cafwyd cyfle i drafod y problemau sydd yn codi mewn ardal fel Cwm-y-Glo a llawer man cyfagos. Diolchwyd i Mr Hughes ac i'r gwest-wragedd Mrs Verna Jones, Meillionen a Mrs Margaret Williams, Nant Forgan gan Mrs Eluned Hughes a Miss O. Parry Jones. Mrs Sylvia Williams, Llwyncoed enillodd wobwr y mis. Rhoddodd Mrs Margaret Williams a Mrs Iris Rowlands, Glan'rafon hanes manwl iawn am y cyfarfod rhanbarthol diweddar yng Nghaernarfon, a diolchwyd iddynt gan Miss Mat Pritchard. Y gŵr gwadd ar Dachwedd 17 fydd Mr Rhodri Prys Williams o Swyddfa'r Archifydd, Caernarfon.

Y TABERNACL (A) - Cynhaliwyd y Cyfarfodydd Diolchgarwch eleni ar y Sul. Yn y bore cafwyd cyfarfod gweddi, gyda'r tri diacon Mr Llew Hughes, Hyfrydle, Mr Hugh Jones Seiont House a Mr Len Parry BA Hebron, yn cymryd rhan. Yn y prynhawn a'r nos pregethwyd gan Mr Gwyn Parry BA, sydd yn athro ysgrifur yn Ysgol Glan Conwy a'r cylch. Mrs E. Hughes, Hyfrydle oedd yr oganyddes. Cafwyd cynulliad pur dda trwy'r dydd, a dymuna'r swyddogion ddiolch i bawb am eu haelioni eleni eto.

URDD GOBAITH CYMRU - Adran Pentrefi Cwm-y-Glo a Brynrefail. Nos lau, Hydref 2, croesawyd aelodau hen a newydd i gyfarfod cyntaf eleni. Da oedd gweld cynifer o blant wedi ymaelodi â'r Urdd a gobetiho bydd y flwyddyn hon fel y llynedd yn un lwyddiannus.

Cafwyd sgwrs am amcanion yr Urdd gan yr ysgrifennydd, Mrs Ifanwy Jones, yna aed ymlaen â 'chwis' â drefnwyd gan Mrs Moira Ellis, Brynrefail. Nos lau, Hydref 16 Mr John Morgan o wasanaeth Tân Gwynedd oedd yn difyrru'r plant.

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



TRADDODIAD A CHOEL gan 'Yr Hen Dderwydd'

Coelcerthi Calan Gaeaf

Yn yr hen amser, rhennid y flwyddyn yn ddwy: haf a gaeaf. Calan Mai oedd dechrau tymor yr haf, a Chalan Gaeaf oedd dechrau tymor y gaeaf. O gwmpas y ddau ddyddiad pwysig hwn yn yr hen galendr, tyfodd llawer o goelion ac arferion.

Un o'r defodau pwysicaf ar Galan Gaeaf oedd cynnau coelcerthi ar y brynau a'r mynyddoedd ledled y wlad. Dywedir mai eu diben oedd boddhu'r duwiau. Efallai i'r ddefod ddeillio'n uniongrychol o un o futhau'r Sgandinafiaid, i goffâu'r duw Balder, mab Odin. Yn ôl traddodiad, gosodwyd hud arno fel na ellid ei ladd gan unrhyw un arall o'r duwiau. Y dduwies Frigg oedd yn gyfrifol am osod yr hud hwn arno, oherwydd iddi ofalu fod yr elfennau naturiol yn tyngu llw i beidio ag anafu Balder. Ond 'roedd Loki, un o'r mân dduwiau drygionus yn anfodlon iawn ar y trefniant hwn, a thrwy dwyll canfyddodd nad oedd yr uchelwydd wedi tyngu llw oherwydd mai "planhigyn ifanc" ydoedd. Rhoes gangen o uchelwydd i'r duw dall, Hother, a'i gyfarwyddo i daro Balder â hi. Gwnaeth yntau, a lladdwyd Balder. Gosodwyd corff ac eiddo Balder ar long a'u llosgi.

Dwy elfen bwysig y chwedl hon yw arwyddocâd yr uchelwydd, a marwolaeth a llosgi corff y duw. Mae i'r uchelwydd le pwysig yn chwedloniaeth a chrefydd baganaidd Ewrop - yn enwedig yn ystod amser y Nadolig, a chred llawer mai coffâu'r duw Balder a wneir wrth gynnu coelcerthi'n flynyddol ar Nos Calan Gaeaf.

Ymddengys mai Calan Gaeaf oedd y bwysicaf o'r ddwy ŵyl flynyddol yng ngolwg y Celtiaid. Dyma ddydd cyntaf y flwyddyn iddynt: traddodiad a orosodd i'r ganrif ddiwethaf ymysg rhai o frodorion Ynys Manaw. Ceir hanes hynafgwyr o'r ynys yn canu'n yr iaith Fanaweg, gân yn dathlu'r flwyddyn newdd ar Galan Gaeaf, oherwydd mai

"felly'r arferai fod yn yr hen amser."

Nid ymysg y Celtiaid yn unig y câi Calan Gaeaf ei ddathlu. 'Roedd yn noson bwysig ledled Ewrop. Dyma'r noson pan ddeuai ysbrydion y meirw yn ôl i'w hen gynefin; yn ôl traddodiad, i'w cynhesu a'u swcro ar eu hen aelwydydd cyn wynebu hirlwm y gaeaf! Ond nid ysbrydion y meirw'n unig oedd ar gerdded nos Calan Gaeaf. Dyma'r noson pan oedd gwrachod, tylwyth teg a phob math o fwciad a choblynnod yn crwydro'r wlad, a gwae pwy bynnag a ddeuai ar eu traws! Credid eu bod yn ymddangos ar ffurf ladi wen neu hwch ddu, a rhaid oedd dianc o'r mynydd cyn i dân y goelcerth farw allan neu byddai'r bwanod yn dal pawb yn y tywyllwch.

Ar wahân i'r ŵyl baganaidd hon ar Galan Gaeaf, cynhelid dwy ŵyl eglwysig arall o fewn ychydig ddyddiau iddi; sef Gŵyl yr Holl Saint ar Dachwedd Iaf, a Dydd Gŵyl yr Eneidiau ar y diwrnod canlynol sef Tachwedd 2il.

Mae gwreiddiau Dydd Gŵyl yr Holl Saint i'w canfod yn y seithfed ganrif, pan ddiwygiwyd y Pantheon yn Rhufain a'i droi'n lle o addoliad. Fe'i cysegrwyd i'r Forwyn Fair a'r holl ferthyron. Dathlwyd yr achlysur ar y cychwyn ar Galan Mai, ond buan y newidiwyd y dyddiad i'r dydd yn dilyn nos Calan Gaeaf. Bu'r eglwys Brotestanaidd yn dathlu'r ŵyl hon hefyd.

'Roedd Dydd Gŵyl yr Eneidiau yn coffâu'r ffyddloniaid a oedd a'u heneidiau'n y purdan. Cynhelid offeren a chyflwynwyd gweddau ar ran yr eneidiau gan yr Eglwys Gatholig.

Cychwynnwyd dathlu'r ŵyl hon yn y nawfed ganrif, ond oherwydd gwahaniaethau sylfaenol yn athrawiaethau'r ddwy eglwys, ni chafodd Gŵyl yr Eneidiau ei dathlu o gwbl gan yr Eglwys Brotestanaidd.

Yn naturiol, ac oherwydd fod y ddwy ŵyl baganaidd yn rhan annatod o'r gwyliau eglwysig, a chollwyd llawer o'r hen draddodiadau a berthynai i Galan Gaeaf. Oherwydd fod cysylltiadau paganaidd Calan Gaeaf yn ymwneud â'r meirw ac â bwanod ac ysbrydion, hawdd iawn oedd i'r eglwys eu gwyrddroi i ffitio'u gwyliau hwy; a oedd hefyd yn ymwneud â'r meirw ac ag eneidiau. Brwydrodd y Protestaniaid yn erbyn y traddodiadau paganaidd, a diflannodd llawer ohonynt o lawer ardal o'r wlad. Er hynny, parhaodd llawer o'r traddodiadau'n fyw, a bu dathlu llosgi Guy Fawkes ar Dachwedd 5 yn gymorth i gadw'r traddodiad o gynnu coelcerthi yn fyw.

Rhaid cofio hefyd, fod newid y calendr, a 'cholli' 12 niwrnod yn 1752 wedi cymhlethu'r gwyliau a'r dathlu. Mewn rhai rhannau o Gymru, 'roedd 'Hen' Noson Galan Gaeaf yn cael ei chynnal ar Dachwedd 11! Mae un o Forsiaid Môn hefyd yn sôn yn un o'i lythrau am goelcerthi ynys Môn yn cael eu cynnu am y tro cyntaf ar y Nos Galan Gaeaf 'Newydd' yn 1758 - chwe blynedd ar ôl newid y calendr. Gellir dychmygu felly, y cymhlethdod ymysg gwerin a oedd ar y cyfan yn anlythrennog. Mewn rhai ardaloedd dethlid yr 'Hen' Galan Gaeaf; mewn eraill y Calan Gaeaf 'Newydd'; ac y mae'n siŵr fod eraill yn cynnu coelcerthi ar Dachwedd 5 i losgi Guto Ffowc. Yn ogystal â hyn, mae'n siŵr fod yr ysbrydion druain wedi mwyrddu'n lân hefyd, ac yn crwydro'r wlad ar y Calan Gaeaf 'Newydd' a'r 'Hen' yn ôl mympwy ardal arbennig!

Erbyn heddiw, wrth gwrs, ychydig iawn o ddathlu sydd i'r gwyliau hyn, ac y mae coelcerth Guto Ffowc yn digoni'r awydd am gynnu tanau, ac yn cadw'n fyw rhyw argoel o'r hen

draddodiad a defod baganaidd a oedd mor bwysig i'n cyn-deidiau ganrifoedd lawer yn ôl.

BYSUS CROSVILLE NEWIDIADAU

Dyma, yn ôl Swyddog Cynllunio Sir Gwynedd rai o'r newidiadau arfaethedig yng ngwasanaeth bysus ardal Bangor:

Crosville N74 Bangor-Felinhelen-Pentir-Deiniolen-Llanberis.

Crosville N76 Llanberis Bangor-Seion-Bethel-Llanrug-Crosville N77 Bangor-Pentir-Rhiwlas

Cyfunir y tair siwrnai uchod yn un gwasanaeth N76 o Fangor i Lanberis via Pentir, Rhiwlas, Seion, Bethel a Llanrug. Nid yw'r llwybr hwn yn gwasanaethu'r canlynol:

1. Bangor-Pentir via Felin Hen Gwasanaethir y rhan yma cyn belled â Felin Hen gan wasanaeth 206 y Moduron Porffor (Bangor-Tregarth-Bethesda) ond nid oes gwasanaeth arall ar gyfer y rhan o Felin Hen i Pentir. Yr unig drigfan ar y rhan yma o'r ffordd yw Rhyd-y-Groes sydd tua hanner milltir oddi wrth y gwasanaeth bws agosaf arall (llwybr yr N76 ym Mhentir)

2. Pentir-Deiniolen-Llanberis Darperir cysylltiad rhwng Bangor a Deiniolen gan wasanaeth rhif 208 y Moduron Porffor (via Nant y Garth) a rhwng Bangor a Llanberis gan wasanaeth arfaethedig Crosville, yr N76, ond ni fydd cysylltiad uniongyrchol rhwng Deiniolen a Llanberis. Gall tiethwyr lleol sy'n dymuno teithio rhwng Llanberis a Deiniolen deithio drwy Llanrug gan newid yno rhwng gwasanaethau N93 (Deiniolen-Caernarfon) a N94-8 (Caernarfon-Llanberis) Crosville.

3. Bangor-Nant y Garth.

Gwasanaethir y rhan yma gan wasanaeth 208 y Moduron Porffor (Bangor-Dinorwig)

Bwriedir gweithredu'r newidiadau hyn o'r mis hwn (Tachwedd ymlaen. Felly, byddwch yn barod am yr amserlenni newydd.

"HOME GUARD" PENISA'R WAUN A BRYNREFAIL



Diolch i Mrs M. Adlam, 14 Bryntirion, Penisa'rwaun am y llun uchod. Enwau os gwelwch yn dda!

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

BRWAS PEN MOCHYN O'R AMERICA

Y mae llythrau yn werth eu cadw a'u hailddarllen yn fy marn i. Er enghraifft dyma lythyr anfonwyd ataf ac a ymddangosodd yn fy ngholofn yn 'Yr Herald Cymraeg', Ebrill 15 1957. Efallai fod rhywun yn gwybod pwy oedd Richard Roberts ac y cawn wybodaeth pellach amdano.

220 So Clarkson St
Denver Colorado U.S.A.
Mawrth 7fed 1957

"Byddaf yn cael pleser a gwybodaeth wrth ddarllen eich ysgrifau o wythnos i wythnos.

Yr oeddych yn sôn am wneud Brwas Pen Mochyn, a gaf fi ddweud wrthyhych sut y gwelais wneud brwas pen mochyn yn fy nghartref yn Nantmor ers talwm. Yn gyntaf rhaid cael bara ceirch. Gwelaf ar y bwrdd mawr y funud yma ddau bentwr o dorthau bara ceirch. Y rhai cyntaf, torthau wedi eu rowlio allan yn denau i tua thrwch ceiniog newydd: gyda swm go lew o fraster dripin, i'w wneud yn frau a blasu, a hefyd i'w gadw wrth ei gilydd wrth eu trin ar y radell. Pobl ddiarth yn fwyaf cyffredin fyddai'n cael y pleser o fwyta'r torthau hyn.

A dacw'r ail bentwr. Bara dripin yn dewach tua thrwch dwy geiniog oedd y rhain, heb ddim llawer o fraster yn eu cyfansoddiad ac felly yn galetach.

Y peth nesaf oedd cael tamaid o fara meddal - bara gwyn - bara siop. Clywais fy mam yn ei alw yn fara-ynyd ond ni chlywais neb arall yn defnyddio'r term, 'bara-ynyd'. Feallai fod fy mam yn ei ddefnyddio yn ei hardal enedigol, sef Garn Dolbenmaen, yn Lleyn.

Yn nesaf fe ddaw y Pen Mochyn. Rhaid ei roi mewn crochan gyda digon o wlybaniaeth i achosi digon o botes ar gyfer y nifer yn y teulu - a'i ferwi i gynhyrchu'r potas.

Rwan, rhoi'r dafell fara siop wedi ei fras dorri, prin ddigon i guddio gwaelod y bowlan - yna yr ail fara ceirch wedi ei falu'n fân, ddim yn rhy fân; profi'r potas, rhoi pupur a halen a'i gael at yr archwaeth, rhoi'r bara ceirch wedi ei falu am ben y bara meddal hyd at hanner y bowlan - tywallt y potes berweddig ar y cwbl nes bron ei fodd. Rhoi plât dros wyneb y bowlan am tua deng munud. Na thynner y brasder oddi ar wyneb y potas gan mai hwn sy'n cynhyrchu y mil llygaid direidus a'ch cyfarch pan dynnwch y plât oddi ar wyneb y brwas.

Daliwch i'n diddori gyda'ch ysgrifau, diolch yn fawr,

Yr Eiddoch,
Richard Roberts
CWESTIWN

A fedr rhywun egluro y term Bara Ynyd? Wrth gwrs Dydd Mawrth Ynyd ydyw'r diwrnod o flaen Dydd Mercher Lludw - sef Diwrnod y Grempog - ond beth

oedd Bara Ynyd?

GALWAD I YMFUDO I AWSTRALIA

A dyma lythyr arall oddeutu'r un amser anfonwyd o

Ael y Bryn
77 Murray St
Sth Caulfield SE8
Victoria Australia

Yr oedd Mr Evan R. Thomas, sefy cyfaill a anfonodd y llythyr yn siarad ar y radio ychydig amser cyn anfon y llythyr. Cefais y pleser o wrando arno a daeth ei lais drosodd yn glir a hollol ddealladwy ac hefyd eraill oedd yn y program. Aeth Mr Thomas drosodd yn y flwyddyn 1912 a phriododd Gymraes o Rhondda, ond wedi ei geni yn Awstralia.

Dyma ran o lythyr Mr Thomas "Siom a chwerwder mawr i mi fydd cyfarfod Cymry o Gymru yn dod i'r wlad yma i fyw ac heb fedru gair o Gymraeg. Methaf ddeall sut y mae'r un Cymro yng Nghymru yn medru byw heb ddysgu iaith ei fam. Yr wyf fi yn falch iawn o gael dweud fy mod yn dal i siarad yr iaith Gymraeg er yr hoffwn ei gwybod yn well.

Cawsom Noson Lawen yn ein tŷ ni, Mawrth 23. Yr oedd deg ar hugain o Gymry o bob rhan o Gymru yno. Yr oedd John Williams, Llangwyllog yno, a Nansi Owen Mynydd Mechell; John Davies, Corwen; Tom Roberts Llangefni; Mr a Mrs Stan Roberts Llanrwst; Miss Genty Stevens Ebbw Vale. Bu Miss Stevens yn canu ar brogram radio a drefnwyd gan Mr W.R. Owen i'r rhai dros y môr. Fe glywir Côr Cymysg Melbourne yn fuan ar y program 'Tramor'.

"Y mae'r Cymry a ddaeth i'r wlad hon yn ddiweddar yn hapus iawn yma a hwyrach yn well eu hamgylchiadau hefyd. Y problem fwyaf yma ydyw problem y tai. Pe baem yn medru setlo'r broblem yma byddai'n ardderchog.

"Y mae dymuniad mawr iawn am gael ymfudwyr o Brydain i Awstralia. Y Cymry ydyw'r gorau i ddod yma. Cwynir yn aml yma am fod pobl o Dde Ewrob yn dwad yma a heb fod yn siwtio'r lle. Os oes ar Gymry eisiau dwad yma y mae digon o gyfle ar gyfer pob math o weithwyr.

"Y mae'r Llywodraeth wrthi yn cynllunio mudiad mawr i geisio denu pobl i ddwad o Brydain i Awstralia. Mae'r Cymry yn setlo i lawr yn ardderchog ac wedi llwyddo mewn busnes glo, haearn a llongau. Yn Sydney, siop David

Jones yw'r fwyaf yn Awstralia. Ym Melbourne mae dynion busnes sy'n Gymry yn britho'r ddinas.

"Gadawodd un Cymro enwog y swm o £750,000 i Brifysgol Melbourne, i'w ddefnyddio i helpu myfyrwyr tlawd i ddod i'r Brifysgol. Yr oedd gan Evan Evans fusnes mawr mewn fflagiau a phebyll etc. a'i fab Ivor Evans a gynlluniodd fflag Awstralia. Sefydlwyd y Queen Victoria Women's Hospital gan Gymry rhyw gan mlynedd yn ôl. Y mae'r Eglwys Gymraeg a Neuadd Dewi Sant er eu bod dros gant oed yn dal o hyd. Y mae digon o broffion fod y Cymry wedi

cyfrannu yn helaeth i Awstralia.

Cofion cynnes at bawb,
Yr eiddoch,
Evan. R. Thomas.

APÊL

Beth am anfon llythrau i ni - Chwi Gymry ar Wasgar!

"Os na elli ddyfod trosodd Anfon lythyr Deio bach."

Yr oedd Miss Doris Adlam, Penisarwaun yn dechrau ei gwaith fel Athrawes Gwniadwaith a Chymraeg yn Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam y tymor hwn.

M.L.I.W.

TEYRNGED I'R DIWEDDAR GYNGHORYDD MRS M.E. HUGHES

Yng nghyfarfod diwethaf Cyngor Cymuned Llanrug, talwyd teyrnged gan y Cadeirydd - y Cyngorydd R.T. Pritchard i'r diweddar Gyngorydd Martha E. Hughes, Graig-y-Don, Cwm-y-Glo a fu farw yn sydyn ar Fedi 3 yn Middlesborough, ei thref enedigol.

Daeth Mrs Hughes yma tua thrigain mlynedd yn ôl, yn briod ifanci i'r diweddar Mr John Emrys Hughes, ac o'r dechrau cymerodd ddiddordeb, rhan yng ngweithgarwch y pentref. Dysgodd ein hiaith, ac ymfalchiai yn ei gallu i ddarllen y Beibl yn Gymraeg mewn Ysgol Sul a Chwrdd Gweddi. Bu'n ddiagon, fel ei phriod o'i blaen, yng nghapel MC, ac wedi cau'r capel, ymaelododd yn Eglwys Sant Gabriel.

Yn ystod ei hoes bu'n flaenllaw ynglŷn â llawer o fudiadau dyngarol, yn cynnwys Penllywydd y Groes Goch, cyn, ac yn ystod y rhyfel; trefnydd ac ysgrifennydd Cymdeithas y T.B.; ysgrifennydd S.S.A.F.A. Rhoddodd ddeugain mlynedd o wasanaeth i'r cynilo cenedlaethol, a llawer o'i hamser er budd y Lleng Brydeinig. Bu'n Gyngorydd ar gyn Gyngor Dosbarth Gwledig Gwyrfa, ac yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Bryn'Refail, Llanrug.


Er i'w hiechyd ddirywio'n ddiweddar, cadwodd ei

diddordeb mewn gweithgarwch lleol, ac i'r diwedd, rhoddodd ei phresenoldeb cyson fel Cyngorydd Cymuned, a thrysorydd cangen leol y Blaid Lafur. Nac anghofier 'chwaith ei charedigrwydd a'i pharodrwydd bob amser i weini ar y claf, a bu ei sirioldeb a'i gofal tyner yn gymorth amhrisiadwy i lawer teulu mewn cyfnod o bryder neu brofedigaeth.

Cydymdeimlwn â'i phum merch, a'i dau fab, ac â'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth.



BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

PENISARWAUN

CYDYMDEIMLWN – Â Mrs Annie Williams, 1 Madog Terrace, sydd wedi colli ei hunig chwaer, Mrs Gladys Thomas.

DIOLCH – Gyda'r rhifyn hwn o'r Eco gwelwn ddiwedd cyfnod yn hanes y papur ym Mhenisarwaun oherwydd dyma'r rhifyn olaf i Leslie Larsen gyfrannu iddo fel gohebydd yr Eco yn y pentref. Mae Leslie wedi mynegi'r awydd i gael ei ryddhau o'r swydd er mwyn cael amser i 'sgrifennu mwy o erthyglau natur; hanes; daeareg, ac yn y blaen. Braint i mi, ar ran yr Eco a phobl y pentref, yw diolch yn fawr iddo am ei gyfraniad aruthrol i'r papur. 'Roedd Leslie yn un o'r "ychydig ffyddlon" a roddodd gychwyn i'r papur a'i osod ar sylfaen gadarn, a hyn ar adeg pan oedd nifer o bobl yn y fro yn darogan tranc yr Eco hyd yn oed cyn i'r rhifyn cyntaf ddod o'r Wasg. 'Rydym yn edrych ymlaen rwan at gael darllen erthyglau gan Leslie yn y dyfodol agos.

Wrth ddiolch i Leslie am ei lafur, dyma gyfle hefyd, o groesawu gohebydd newydd yr Eco, sef Mrs Mary Davies, Llys y Gwynt. Mae Mrs Davies eisoes yn gyfrannwr selog i'r Eco gyda'i nodiadau misol o Eglwys St Helen. Diolch yn fawr iddi am ymgymryd â'r swydd. Cofiwch gysylltu â hi efo'ch newyddion, storïau, cerddi, lluniau ac yn y blaen. Ecih papur chwi yw'r Eco! Cofiwch hefyd fod croeso i chwi alw yma yn 3 Bryn Eglwys a gadael newyddion efo Mary a minnau.

Tony Elliott (Gol)

EGLWYS ST HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau, nos Lun, Hydref 6. Y wraig wadd oedd Mrs Glyndwr Williams, Caernarfon. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar lyfr coginio Mrs Beaton. Rhoddwyd y te gan Mrs Sarah Roberts, Elidir View. Cydymdeimlwn â Miss V.

Roberts, Brynrefail, sydd wedi cael tair profedigaeth yn ddiweddar.

Llongyfarchwn Mrs E.B. Jones, 6 Bryntirion ar fod yn hen nain, a hefyd Mr a Mrs Norman Rowlands, Bryn Howell ar eu priodas ym Manceinion. Dymunwn yn dda i Alison Jones yng Ngholeg Llandrillo-yn-Rhos, ac i'w thaid, Mr John Jones, Weirglodd Las ar ôl ei ddamwain i'w fraich.

YR YSGOL – Diolchir i'r rhieni am eu rhoddion o ffrwythau a llysiau at y Diolchgarwch. Fe'u cyflwynwyd i Gartre'r Henoed, Plas Pengwaith, Llanberis.

Cynhelir y noson goffi flynyddol er budd Cronfa'r ysgol, am 6.30pm, nos Wener, Tachwedd 14. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad tuag at y Byrddau Gwerthu arferol.

AROS YN YR ALMAEN – Ar hyn o bryd (Hydref 22) mae Rhian W. Williams, Glyn Euron gyda'i chyfeilles yn yr Almaen ac yn ôl pob golwg yn mwynhau ei hun yn fawr. Yn ystod ei harhosiad bydd yn ymweld â'r Swistir, yr Eidal, Ffrainc ac Awstria.

PRIODAS – Dymunwn yn dda i Mr Norman Rowlands ar ei briodas yn ardal Rochdale. Gobeithio bydd y pâr ifanc yn hapus iawn.

COLLI – Yr oedd yn ddrwg gennym glywed bod Mrs Percy Williams, Llys y Gwynt wedi colli ei chwaer. Cydymdeimlwn â hi yn ei galar.

GWAELEDD – Dymunwn yn dda i Mrs Alice Thomas, 10 Tai Arthur a Mrs Maria Jones, Bryn Tirion wedi iddynt ddod o'r ysbyty. Brysiwch i wella'n llwyr o'ch dwy.

Bu Miss Gwenllian Parry, Tawelfa, mewn ysbyty yn cael triniaeth i'w thonsils. Mae hi gartref rwan ac wedi gwella yr ydym yn falch o ddweud.

YSGOL PENISARWAUN 1937



Diolch i Mrs M. Adlam, 14 Bryntirion, Penisa'rwaun am y llun o Ysgol Penisarwaun o'r flwyddyn 1937, sef y flwyddyn gyntaf i Mr Emyr Thomas fel prifathro.

CYSTADLEUAETH Y MIS



'Sgwn i be 'ma'r ci'n ddeud?

Anfonwch eich syniadau i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug erbyn Tachwedd 15.

LLANBERIS (Atodiad)

COLLI WATCH – Collwyd watch ORIS (heb y strap yng nghyffiniau Swyddfa'r Post a Siop D ac E ar y Stryd Fawr.

Byddai Miss Gwyneth Parry, Plas Tirion, yn ddiolchgar iawn i'r sawl a ddaw o hyd iddi.

BINGO ELUSENGAR – Cafwyd noson o gyw iâr a Bingo yn ddiweddar yng Ngwesty'r Gwynedd. Cyflwynwyd yr

elw o £45 i Blas Pengwaith. Dymuna'r trefnyddion ddiolch am y rhoddion a dderbyniwyd ac i Mr Wil Roberts am alw. Bydd Cinio Nadolig a Bingo ar Ragfyr 12.

YN YR YSBYTY – Drwg iawn oedd gennym glywed bod Mrs Sian Thomas, gohebydd y pentref, yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn iddi. (– Gol.)

CYMDEITHAS Y BEIBLAU

Er gwaethaf y tywydd gaeafol ar bnawn Sul, Hydref 5, daeth cynrychiolaeth dda o Ysgolion Sul pentrefi Brynrefail, Deiniolen, Dinorwig a Phenisarwaun, ar gyfer cyfarfod undebol y Gymdeithas a gynhaliwyd am eleni yn eglwys St Helens, Penisa'rwaun. Yn wir, 'roedd y cynulliad gymaint fel y bu rhai cario cadeiriau i'r eglwys a'r adeilad dan ei sang. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch Trefor Lewis, Deiniolen, ac yn ôl yr arfer cafwyd cyfraniadau graenus gan y plant, ac oedfa i'w hir gofio.

TAN Y COED

GENI – Hydref 6, yn ysbyty Dewi Sant Bangor ganwyd mab i Mr a Mrs Gareth Griffith, 19 Llwybr Main, Mynydd Llandegai – Morgan Rhys, brawd i Dafydd ac Ioan. Mam Morgan Rhys yw Gwenda, merch Mr a Mrs Gwilym Rees Hughes, Oerddwr. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Griffith, a dymuniadau da'r ardal iddynt hwy a'u mab bychan.

PRIODAS – Yng Nghapel Preswylfa, Llanberis ar Hydref 11 priodwyd Mr Michel William Blanchard, 'Y Llythyrdy' a Miss Sharon Ellis o Lanberis. Y Parch Marcus Robinson BD a'r Parch Isaac Jones, BA, BD, oedd yn gweinyddu. Yr organyddes oedd Miss Lola Llewelyn. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Blanchard a phob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd ym Methel.

CROESO – Croeso'r ardal i Mr a Mrs Blight sydd newydd symud i fyw i 'The Cottage'.

YN GWELLA – Da gweld Miss C. Anne Jones, Pant Clyd wedi gwella ar ôl niweidio'i braich tra'n marchogaeth ar gefn ceffyl.

YN CERDDED – Yr oedd y plant a ganlyn o'r ardal hon ymysg plant Ysgol Brynrefail fu ar daith gerdded yn ddiweddar er mwyn casglu arian i'r ysgol. Margaret, Dafydd, Gareth, Linda, Richard, Garry, Carys Vaughan, Teresa, Anna a Christopher.

DIOLCHGARWCH – Dathlwyd Dydd Llun Diolchgarwch Hydref 20 yng nghapel Tanycoed gyda Chyfarfod Gweddi yn y bore – Mrs Rhys Owen, Mrs Jane Humphreys a Mrs Meira Pritchard yn cymryd rhan yn y gwasanaeth.

Yn y prynhawn cafwyd Gwasanaeth y Plant wedi ei drefnu gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth hwn gan blant o bob dosbarth a chan ddwy o'r athrawesau, Mrs Owena L. Parry a Miss Margaret E. Roberts. Y cyfeilydd oedd Mrs Beryl M. Jones a Bethan L. Parry oedd yn chwarae recorder yn gyfeiliant i'r plant lleiaf. Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch J.R. Roberts, MA, BD, Bangor. Mrs Violet Blanchard oedd y cyfeilydd yng nghyfarfod y bore a'r hwyr.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CLWB DAEARGWN ERYRI

'Er mai ardal wledig yw bro 'Eco'r Wyddfa', eto'i gyd, mae'n siŵr fod llawer ohonom heb lawn sylweddoli cymaint yw colledion y ffermwyr lleol oherwydd awch y llwynog am ei ysglyfaeth. Oherwydd fod cymaint o ffermwyr yn colli ŵyn, penderfynwyd sefydlu cymdeithas a fyddai o gymorth i atal hyn, ac felly y daeth Clwb Daeargwn Eryri i fodolaeth ym 1978

Erbyn heddiw, mae aelodaeth y Clwb wedi cynyddu i tua 50, a daw'r aelodau o wahanol ardaloedd yn Eryri. Cadeirydd y Clwb yw Richard Roberts, y Felinheli, gydag Ifor Jones, Cwm Ystradllyn yn Drysorydd a Gwenda Jones, Llanrug yn ysgrifennydd.

Un o brif amcanion y clwb, ar wahân i ddal a lladd llwynogod, yw casglu arian, oherwydd gall y costau ariannol fod yn ddrud iawn ar adegau, yn enwedig os yw ci wedi daearu ac yn methu â darganfod ei ffordd allan. Ar adegau felly, bydd swyddogion 'achub' y Clwb yn cael eu galw allan, a bydd yn rhaid tyllu i mewn at y ci gyda chaib a rhaw. Os bydd y gwaith hwn yn rhy anodd, yna rhaid galw am Jac Codi Baw, ac y mae'n rhaid talu costau llogi'r peiriannau hyn.

Pan gaiff y llwynog ei ddaearu, anfonir y daeargi i mewn ar i ôl. Y daeargwn a ddefnyddir amlaf yw Terrier 'Jack Russel'; cŵn bychan, heini ond gwydn iawn, sy'n medru ymwithio i mewn i dyllau culion yn ochrau'r mynyddoedd. Bydd cyfarth y cŵn yn ddigon fel arfer i yrru'r llwynog allan o'i ddaear, ac fe'i saethir. (Nid hela 'cotiau coch a tali ho' y crach mo'r math hwn o hela).

Mae amgylchiadau'r helfa yn amrywio yn ôl natur y tir: weithiau, anfonir y daeargwn i mewn i ddaear bridd. Pe digwyddai i'r daeargwn fynd i drafferthion yma, yna, fel arfer, anfonir ci arall i mewn ar ei ôl i'w ddenu allan. Os mai methiant fydd y dull hwn, yna rhaid galw am yr 'achubwyr', a gellir cloddio at y cŵn gyda rhawiau. Dyna'r fantais o gael daear bridd; mae'n



Y Daeargwn yn chwilio am yr agoriad i'r ddaear.

haws cloddio at y cŵn o lawer. ond pan fo'r ddaear mewn ardal garegog, a chreigiog ei naws – fel Nant Peris er enghraifft – yna bydd y gwaith o dyllu'r daeargwn allan yn llawer anos, ac yn fwy costus. Dyna pam mae angen casglu digon o arian rhag ofn i amgylchiadau o'r fath ddigwydd yn rhy aml.

Aelodau'r Clwb s'yn berchen eu cŵn eu hunain, a hwy sy'n gyfrifol am fwydo a chadw'r cŵn. Gall cenau 'Jack Russell' gostio tua £20 yn 6 wythnos oed; ac y mae'r gost o'u cadw yn £3 i £5 ar gyfartaledd, bod wythnos. Nid rhyfedd felly, fod y Clwb yn gofalu am arian i achub y daeargwn gweithgar hyn pe digwyddai iddynt fethu â dod allan o'r ddaear wrth hysio llwynog.

Mae swyddogion ac aelodau'r Clwb yn gyfrifol am gynnal nifer o weithgareddau i godi arian i gronfa'r Clwb, gan gynnwys rafflau. Un o'r dulliau mwyaf poblogaidd yw cynnal cystadleuaeth saethu colomennod clai. (gweler tudalen 'Chwaraeon' am fwy o'r hanes). Bydd ffermwyr y cylch



Rhoi'r daeargwn yn y ddaear i erlid y llwynog.



Cenawon llwynogod wedi eu dal uwchben Betws Garmon. Dewi Jones o Lanrug biau'r ci.

hefyd yn cyfrannu tuag at yr achos, oherwydd er eu lles hwy y mae'r Clwb Daeargwn mewn bodolaeth.

NANT PERIS

LLONGYFARCHIADAU – I Mr a Mrs Bingham ar enedigaeth merch ac i Mrs Ann Jones ar fod yn nain am y tro cynta.

DYMUNIADAU GORAU – I Alwyn Searell ar gael ei dderbyn yn fyfyrwr yng Ngholeg Bala Bangor. Pob llwyddiant i'r dyfodol Alwyn.

FFERMWYR IEUAINC – Cafwyd Dawns Ysgubor dan nawdd Clwb Ffermwyr Ieuainc yn Nhŷ Isaf trwy garedigrwydd Mr a Mrs Meirion Pritchard. Mrs S. Morgan, Bethel oedd yn gyfrifol am y trefniadau. Cafwyd noson lwyddiannus.

HYDREF 6 – Agorwyd Bont newydd Stamps am y tro cyntaf.

Beth yw 'Bara Ynyd'?

Ynglŷn â'r term 'Bara Ynyd' yn y golofn 'Agor Ffiniau'r Gorffennol':

Daw'r gair "Ynyd" o'r Lladin *initum* sef dechreuad neu gychwyn. Nos Ynyd oedd y noson cyn dechrau ar gyfnod y grawys; yn ddiweddarach daeth i gael ei alw'n ddydd Mawrth Ynyd neu ddydd Mawrth crempog.

A yw'r term 'Bara Ynyd' yn cyfeirio at y ffaith mai'r bara gwyn neu fara siop oedd yn cael ei osod ar waelod y bowlen i ddechrau'r Brwas Pen Mochyn?

Byddai'n ddiddorol clywed unrhyw esboniad arall.

—Gol.

CYMDEITHAS HANES TEULUOEDD GWYNEDD

Mewn cyfarfod ym Mangor ddydd Sadwrn, Hydref 25, cafodd Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd ei ffurfio. Mae Cymdeithasau tebyg eisoes wedi eu ffurfio mewn rhannau eraill o Gymru a Lloegr o ganlyniad i'r twf diweddar ymysg pobl â diddordeb mewn olrhain eu hachau.

Etholwyd Mr R.R. Williams, Porthaethwy yn Gadeirydd, Mr R. White, 5 Gordon Terrace, Bangor yn ysgrifennydd, a Mr R.J. Rowlands, Dolgellau yn drysorydd. Ymysg pwyllgor o bymtheg i drefnu gweithgareddau am y flwyddyn mae dau aelod o ardal yr 'Eco' sef Iwan Roberts a Dafydd Wh. Thomas, Llanrug.

Ymhle mae'ch gwreiddiau? Pwy oedd eich cyn-deidiau a beth oedd eu hanes? A oes angen cymorth arnoch i ddod o hyd i hanes eich teulu? Os oes angen atebion i'r cwestiynau hyn, yna ymunwch â'r Gymdeithas newydd hon. Un arall o fwriadau'r Gymdeithas yw rhestru arysgrifau oddi ar gerrig beddau cyn i fandaliaeth ac effeithiau'r tywydd eu dileu am byth. Bwriedir cyhoeddi

cylchgrawn dwyieithog yn trafod gwahanol agweddau ar hanes teuluoedd. Ei enw fydd 'Gwreiddiau'.

Ar Dachwedd 25, ar y rhaglen radio 'Codi'r Ffôn', bydd Mr Gareth H. Williams o Archifdy Gwynedd yn ateb cwestiynau'r gwrandawyr ar y testun 'Hanes Teuluoedd'. Cofiwch wrando; neu'n well, anfonwch gwestiwn!

Bydd Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd yn cyfarfod nesaf ar bnawn Sadwrn, Ionawr 3, 1981 am 2.30 yn Ystafell Ddarlithio 5, Adran Archaeoleg, Coleg y Brifysgol, Bangor. Croeso cynnes i bawb.

SUL YR URDD

Cynhelir Gwasanaeth yng Nghapel Mawr, Llanrug, ddydd Sul, Tachwedd 16 am 2.00. Ceir eitemau gan ganghennau lleol o'r Urdd, yn cynnwys côr, cerdd dant, cyflwyniad llafar etc.

Croeso cynnes i bawb.

Bydd casgliad yn ystod y gwasanaeth tuag at Drychineb Algeria.

**WIL
a
VAL GUY
TREFLYN
STORES
BETHEL**

**Bwydydd, Melysion,
Teganau a Dioddydd
Y FELINHELI 670237**

STORFA

**Mace
O.R. & M.
PARRY**

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

Cedric



BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, cafwyd arddangosiad o'r gwaith cywrair 'Macramé' gan Mrs Pat Jones, Cae Coch. Rhoddwyd y te gan Sheila Williams a Helen Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Pat Jones, a hi a'i enillodd hefyd!

Llongyfarchwyd Gwilym a Mair Williams ar achlysur eu priodas arian. Anfonwyd cofion at Mrs Jennie Hughes, sydd gartref o'r ysbyty, a hefyd at Mrs Foulkes, Haulfryn a Mrs Hughes, Bronafon, y ddwy yn dioddef ar ôl damwain.

Creosawyd Mrs M.L. Griffiths yn ôl i Ael y Bryn ar ôl cyfnod o'r pentref ym Mryn y Maen ger Bae Colwyn.

Pasiwyd i ymuno gyda chlwb yr henoed am ginio Nadolig yng Nglantraeth ar Ragfyr 12.

CLWB PEDWARUGAIN - Enillwyd mis Medi: Medi 5, 1. Moira Ellis, 2. Carol Houston, 3. O.J. Williams. Medi 12: 1. Betty Owen (Trosafon), 2. Emyr Jones, 3. Wil Hughes. Medi 19: 1. Jennie Williams, 2. Eirlys Williams, 3. Anne Parry. Medi 26: 1. Audrey Roberts, 2. Sylvia Williams, 3. Gari Jones.

Cofiwch am xxmn Tân Gwylt yn y cae chwarae ar Dachwedd 5 - mae croeso i bawb - oedolion a phlant. Os oes rhywbeth ag angen ei losgi, gofynnwn i chwi ei roi ar y goelcerth yn ystod y dydd, Tachwedd 5.

Parti Nadolig - Mae hwn wedi ei drefnu ar gyfer Rhagfyr 20 yn Neuadd Henllys - sef cinio Nadolig traddodiadol a dawns yng nghwmni'r grŵp lleol 'The Outlaws'. Gellir archebu tocynnau oddi wrth y casglwyr, gyda blaendal o £2.

CLWB MAMAU - Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, trefnwyd gêm gan Moira Ellis. Rhoddwyd y te gan Audrey Roberts a Shirley Roberts. Rhoddwyd anrheg y mis gan Dorothy Jones ac fe'i enillwyd gan Carol Houston. Croesawyd Mrs Audrey Hasson yn aelod newydd. Mae'r wibdaith i Gaer i brynu at y Nadolig wedi ei threfnu at Dachwedd 29. Mae croeso i bawb ddod - cysyllter â Carol

Houston, Audrey Roberts neu Liz Thomas mor fuan â phosibl, gyda blaendal o 50c. Gwahoddir pawb sydd â diddordeb mewn clwb ymarfer corff i gysylltu â Liz Thomas yn y dyfodol agos, gyda'r bwriad o ddechrau dosbarth yn Nhŷ Glas ar nos Lun.

DIOLCH - Dymuna Dilys Wyn Evans, Ty'n Buarth, a Geraint Wyn Morris, Dinorwic House, ddiolch i'w teuluoedd a'u cyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar yr achlysur o'u dywedd.

EGLWYS MC BRYNREFAIL - Yn yr oedfa fore Sul, Medi 14, bedyddwyd Eysyllt Mair, merch fach Mr a Mrs E. Jones, 9 Trem Eilian. Gwasanaethwyd gan y Parch S.O. Hughes. Bawn Sul, Hydref 5, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Feibla (Cangen Deiniolen) yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun. Rhoddwyd cyfraniad ar gân gan y canlynol o blant Ysgol Sul Brynrefail Alwen a Caron Jones, Einir a Catrin Gwyn, Nerys Ann Williams, Jacqueline, Glenda a Paula Walters, Joanne a Maria Evans.

Dydd Mercher, Hydref 8 cynhaliwyd Sasiwn y Chwiorydd, Henaduriaeth Arfon ym Mrynrefail. Cafwyd cyfarfodydd bendithiol pryd yr anrchwyd gan Miss Olwen Owen, Llanbedrog a Mrs Gwyneth Lloyd, Caernarfon. Llywyddwyd yn y cyfarfodydd gan Mrs Miriam Lewis, Deiniolen a Mrs Nansi Jones, Bontnewydd.

YR WYL DDIOLCHGARWCH - Cynhaliwyd dau gyfarfod o ddiolch ddydd Llun, Hydref 20 yng Nghapel MC Brynrefail. Cymerwyd rhan yng ngwasanaeth y bore gan Mri Bertie Ll. Roberts, Llwyncoed Bach ac Elfed Roberts, Ffrwd Goch a diweddwyd gan Mrs H.J. Jones, 7 Trem Eilian. Roedd gwasanaeth y prynhawn dan ofal y chwiorydd. Cymerwyd rhan gan Miss A.M. Williams, Llys Arfon, Miss Lowri P. Roberts, Godre'r Coed, Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, Mrs Mair Griffith Ael-y-Bryn a Mrs Betty Owen, Tros yr Afon.

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL Blas ar Fywyd Coleg

Yn ystod y mis diwethaf cafodd rhai o aelodau'r chweched dosbarth ymweld â Choleg Prifysgol Aberystwyth. Bwriad hyn oedd rhoi cymorth iddynt ddewis colegau erbyn y flwyddyn nesaf. Cawsant ddeuddydd arbennig i flasgu bywyd myfyrwyr.

Cerddor Arbennig

Derbyniwyd Chris Lloyd (6ed dosbarth) i chwarae gyda Cerddorfa Ieuencid Gwynedd o dan arweiniad John Huw Davies. Llongyfarchiadau yr ysgol i Chris, sydd yn byw ym Mhen-y-Pas.

Grŵp Dawns yr Ysgol

Ymwelodd Iain Ferguson o'r cwmni dawns 'Jumpers' o Gaerdydd â'r ysgol yn ddiweddar i hyfforddi grŵp dawns yr ysgol. Bydd ef a rhai eraill o'r cwmni yn dychwelyd i'r ysgol fis Chwefror nesaf i roi perfformiad - gyda genethod yr ysgol!

Cronfa'r Ysgol - Arin yn Brin

Ar Hydref 15 cafwyd taith gerdded i hel arian i'r ysgol - gan fod torriadau yn yr arian a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir. Cerddodd tua chwe chant o'r disgyblion a chafwyd prynhawn eitha diddorol. Gobeithir cael swm sylweddol i gyllido gweithgareddau'r ysgol.

Disgo

Ar Hydref 30 bydd disgo yn cael ei gynnal yn yr ysgol i gasglu arian at barti Nadolig Ysgol Pendalar, Caernarfon.

Cwrs Undydd ar y 'Merchant of Venice'

Dydd lau, Hydref 16 aeth 30 o blant dosbarth 5 i ysgol Dyffryn Ogwen gyda Mrs N. Manning a Mrs Mary Hughes. Yno gwelsont ddau actor proffesiynol yn actio golygfeydd o'r ddrama enwog gan Shakespeare. Hefyd cafodd rhai o'r plant gyfle i ymuno yn y gweithgareddau.

Darlith ar Fynydd a Sgio

Dydd Gwener, Hydref 17, cafodd rhai o blant yr ysgol ddarlith ddiddorol gan Mr John Ellis Roberts, prif swyddog y Parc Cenedlaethol.

Paris

Dydd lau, Hydref 16 aeth grŵp Ffrangeg dosbarth 5 i Baris am wythnos gyda Mr Elfyn Thomas, y prifathro. Yn ystod yr ymweliad yr oedd y plant yn aros gyda theuluoedd yng nghylch Paris, ac yn cael ymweld â Versailles a Fontainebleau.

Casglu £100

Mae 37 o blant y flwyddyn gyntaf a dau o blant yr ail flwyddyn wedi casglu £100 tuag at gartrefi Dr Barnado trwy gael eu noddi am ddysgu enwau afonydd a dinasoedd Cymru. Bydd rhai ohonynt yn cynrychioli'r ysgol ac yn cyflwyno'r siec i Faer Dinas Bangor mewn Noson Wyl arbennig yng ngholeg Technegol Bangor, nos Wener, Hydref 31.

Pêl-droed

Canlyniadau'r mis diwethaf: Ysgol Syr H. Owen, Caernarfon (Gartref). Bechgyn Hŷn, ennill 3-1. Bechgyn lau colli 3-1, Bechgyn Dan 13, ennill 6-4. Ysgol Dyffryn Ogwen Bethesda (Gartref). Bechgyn Hŷn, cyfartal 3-3, Bechgyn lau, ennill 2-1, Dan 13: tîm A, ennill 2-0. tîm B, ennill 2-0.

Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes (Ffwrdd). Bechgyn Hŷn, ennill 3-0. Bechgyn lau, cyfartal 0-0, Dan 13. tîm A, ennill 9-6 - Huw Jones o Lanrug yn sgorio wyth gôl yn y gem yma. tîm B, ennill 6-1.

Llongyfarchiadau i Karl Williams, capten pêl-droed yr ysgol. mae wedi ei ddewis i chwarae i dîm Ysgolion Gogledd Cymru dan 18 oed.

Nofio

Yn ystod y mis diwethaf enillodd pedair o enethod yr ysgol eu medelau aur am nofio. Ein llongyfarchiadau i Caryl Pugh Yvette Mumford, Beate Adams (i gyd o 2B) a Sandra Williams (1E).

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

DEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670124

DYDDIADUR TACHWEDD

3. Llun. LLANRUG: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
4. Mawrth. DEINIOLLEN: Dosbarth Nos WEA yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00
5. Mercher. LLANBERIS: Noson Goffi a Stondinau yn y Ganolfan gyda'r elw yn mynd at y 'Liver Research Foundation'. BRYNREFAIL: Noson Tân Gwylt yn y Cae Chwarae.
6. Iau. WAUNFAWR: Pwyllgor Blynnyddol Sefydliad y Merched. LLANRUG: Noson Goffi Chwiorydd Capel Mawr am 7.00. CWM Y GLO: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. PEN Y PASS: Dosbarth Nos WEA yn yr Hostel am 7.45. DEINIOLLEN: Cyfarfod Chwiorydd Disgwyllfa. LLANBERIS: Dosbarth Nos WEA 'Byd Natur' gyda Mrs Mary Vaughan Jones, BSc yn yr ysgol am 7.00.
8. Sadwrn. LLANRUG: Eisteddfod Gadeiriol y Pentref yn Ysgol Brynrefail. WAUNFAWR: Eisteddfod yr Ardal yng Nghapel Croesywaun.
9. Sul y Cofio.
10. Llun. LLANRUG: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30. DEINIOLLEN: Y Cyngor Eglwys.
11. Mawrth. BETHEL: Swper Clwb Bro Bethel ym Mhlas Tan Dinas. DEINIOLLEN: Pwyllgor Blynnyddol Plaid Cymru. LLANRUG: Merched y Wawr. Sgwrs gan Mrs Helen Ramage ar 'Tai Dafydd'.
12. Mercher. LLANBERIS: Clwb y Mamau. Bingo. LLANRUG: Undeb y Mamau. Noson Goffi rhwng 7 a 9 o'r gloch gyda'r elw yn mynd at Gronfa Athritis. LLANBERIS: Bingo er budd y St John's. WAUNFAWR: Cyfarfod Cyhoeddus yn Ystafell yr Eglwys i drafod y Neuadd Bentref.
13. Iau. CWM Y GLO: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. LLANBERIS: Dosbarth Nos WEA 'Byd Natur' yn yr Ysgol am 7.00.
- 14 a 15: Gwener a Sadwrn. Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
14. Gwener. LLANBERIS: Te Bach yr Henoed. YR ARDAL: Noson Lawen Sefydliad y Merched yn Neuadd ysgol Penygroes.
17. Llun. LLANRUG: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30. CWM Y GLO: Merched y Wawr. Sgwrs gan Mr Rhodri Prys Williams o Swyddfa'r Archifydd, Caernarfon.
20. Iau. BETHEL: Pwyllgor Blynnyddol Sefydliad y Merched. CWM Y GLO: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. LLANBERIS: Dosbarth Nos WEA 'Byd Natur' yn yr Ysgol am 7.00.
21. Gwener. LLANBERIS: Arwerthiant gan Glwb yr Henoed.

22. Sadwrn. YR ARDAL: Bore Coffi yn yr ystafell uwchben y Llyfrgell, Allt Pafiliwn, Caernarfon. Dan nawdd Pwyllgor Merched Arfon o Blaid Cymru.
24. Llun. LLANRUG: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
26. Mercher. LLANBERIS: Clwb y Mamau. Sgwrs am y Bwrdd Dŵr.
27. Iau. CWM Y GLO: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. LLANBERIS: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. WAUNFAWR: Cinio Nadolig Merched y Wawr yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug. LLANRUG: Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Twyllo Modryb Angelina' yn neuadd Ysgol Brynrefail.
28. Gwener. LLANBERIS: Te Bach yr Henoed.
29. Sadwrn. BRYNREFAIL: Gwibdaith Clwb y Mamau i Gaer. YR ARDAL: Cymdeithas Eryri - Cantorion Menai a Monteverdi (Mass in B Minor)

DYDDIADAU I'W COFIO
RHAGFYR 5: Ffair Nadolig Plaid Cymru, Waunfawr.

M.A.G.A.

*Annwyl Olygydd,
Yn ein pwyllgor ar Hydref 14, 1980, penderfynodd Mudiad Addysg Gyflawn Arfon ar y polisi canlynol, gan ein bod yn parhau i fod yn bryderus nad yw'r datblygiad tuag at addysg gyflawn Gymraeg yn digwydd yn ddigon cyflym yn yr ardal hon. Ofnwn mai darpariaeth ar gyfer y lleiafrif a geir, yn hytrach nag addysg Gymraeg i bawb, a gwelwn y mewnlifiad o blant di-Gymraeg fel un o'r prif rwystrau rhag i hyn ddigwydd, ac felly mae angen darparu ar eu cyfer heb amharu ar addysg y mwyafrif.*

Gan fod lleiafrif bychan o blant di-Gymraeg yn gwneud datblygu addysg Gymraeg yn anodd dylid darparu ffrwd Saesneg ei chyfrwng yn ysgol Syr Huw Owen a allai gymryd plant o'r tair dalgylch. Byddai gweddill Ysgol Syr Huw Owen, ac ysgolion Brynrefail a Dyffryn Nantlle yn ysgolion Cymraeg naturiol. Gellid ail-drefnu'r dalgylchoedd fel bod rhai Cymry Cymraeg sydd ar hyn o bryd yn mynd i Gaernarfon yn mynd i'r ddwy ysgol arall, ac os bydd angen, gellid ad-drefnu'r athrawon rhwng y tair ysgol yn ôl y galw.

Ein bod yn mynegi pryder fod pwysau ar blant i ddilyn pynciau drwy'r Saesneg a bod y rhai sy'n dewis eu dilyn drwy'r Gymraeg o dan gryn anfantais mewn rhai ysgolion ar hyn o bryd.

GARDDIO

Paratoi at y flwyddyn nesaf yw'r thema eto y mis hwn.

Y COED FFRWYTHAU

Dyma'r amser i docio'r llwyni ffrwythau ar ôl i'r dail syrthio.

EIRIN MAIR

Torri un rhan o dair o'r tyfiant newydd, gan fod y ffrwyth yn tyfu o flagur yr hen bren, Torrwch uwchben y blagur sy'n wynebu tuag allan. Mae hyn yn arbed cael dryslwyn yn y canol a'i adael yn agored. Dylai coes y llwyn fod tua 6-9 modfedd o'r pridd rhag i'r ffrwyth ei gyffwrdd.

CYRINS DUON

Yma, dylech dorri i ffrwdd gymaint ag a fedrwyd o'r hen bren. Ceir y ffrwyth ar y pren brown golau newydd. Fe fyddwch yn siŵr o golli rhyw gymaint o'r pren newydd ond ni wna hyn unrhyw wahaniaeth.

Gellir gwneud toriadau o hen lwyni cyrins duon. Dylair toriad fod tua 8-9 modfedd o hyd. Gorau oll po fwyaf o flagur fydd arnynt. Defnyddiwcxh bowdwr hormon gwreiddio cyn eu claddu. Rhowch tua hanner y toriad yn y pridd. Y flwyddyn nesaf torrwch y llwyn newydd i lawr i tua 6 modfedd a dylai gynaeafu y flwyddyn olynol.

Y LAWNT

1. Rhaid torri'r gwair i lawr ond gadael rhyw fodfedd o dyfiant.
2. Cribinio er mwyn tynnu'r hen wellt marw o'r carped. Os oes mwsogl yn y lawnt, rhaid ei ladd

Ein bod yn nodi fod llawer o rieni yn ystyried danfon eu plant i Ysgol Tryfan ym Mangor oherwydd diffyg Cymreigrwydd yr ysgolion lleol. Tra'n bod yn erbyn hyn fel egwyddor, mae'r bygythiad yn cynyddu ac yn adlewyrchu anffodlonrwydd mawr ar y sefyllfa bresennol. Felly teimlwn yn gryf fod yn rhaid gweithredu ar unwaith i Gymreigio ein hysgolion cyn iddi fynd yn rhy hwyr".

*Yr eiddoch yn ddiffuant,
ar ran M.A.G.A.,
Ariel Thomas (Cadeirydd)
Bronwylfa, Llanwnda,
Caernarfon, Gwynedd*

cyn cribinio. Os na wneir hyn, fe fydd llawer gwaeth y flwyddyn nesaf gan fod cribinio yn ei wasgaru. Gellir defnyddio un o'r cemegau pwrpasol e.e. Mosstox.

3. Trywannu'r lawnt gyda fforch. Mae gwreiddiau, fel popeth byw arall, angen aer. Os yw'r pridd yn llawn dŵr 'does dim aer i'w gael. Dylid trywannu bob rhyw 3-4 modfedd. Gellir defnyddio fforch gardd arferol mewn pridd tywodlyd. Mewn tir cleiog dylid defnyddio fforch arbennig sydd â phichellau gwag fel tiwbiau. Mae'r math yma o fforch yn tynnu silindr allan o'r pridd. Pam mynd i'r fath draf-ferth meddech chwi? Wel, mae'r pridd o amgylch y twll a wneir â fforch arferol wedi ei wasgu'n dyn. O'r herwydd ni all dŵr nac aer fynd drwyddo.

4. Taenu cymysgiad o bridd, tywod a mawn hyd y lawnt. Haenen denau'n unig sydd ddigon. Yna gellir ei frwsio i'r tyllau. Mae cynnwys y cymysgedd yn dibynnu'n union ar ansawdd y pridd. Os yw'r pridd yn dywodlyd yna dylid defnyddio mwy o fawn; os yw'n bridd cleiog dylid defnyddio mwy o dywod.

Ar ôl hyn i gyd, digon di-olwg fydd y lawnt. Peidiwch â phoeni, dylai fod yn fendigedig y flwyddyn nesaf.

BETHEL (Atodiad)

MARW TWM BETHEL - Dydd Iau, Hydref 9 bu farw Mr Tom Jones, 2 Cremlyn, 'Roedd Mr Jones yn un o gymeriadau'r pentref, yn rhigymwr da ac fe gyhoeddwyd dau lyfr o'i waith. Mae'n cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

CINIO CLWB BRO BETHEL - Ar Dachwedd 11 bydd Clwb Bro Bethel yn swpera ym Mhlas Tan Dinas. Mae'r cinio wedi ei drefnu drwy garedigrwydd y diweddar Mr Tom Jones.

LLONGYFARCHIADAU - I Richard Williams, Hafod ar ennill record hir newydd Elifant, 'Gwin y Gwan' mewn cystadleuaeth ar y rhaglen Sosban. Camp Richard oedd enwi'r grwpiau y bu aelodau Elifant yn aelodau ohonynt cyn ffurfio Elifant.

DIOLCHGARWCH - Bu Eglwys i'r pentref yn cynnal Gŵyl Ddiolchgarwch fel arfer eleni eto. Ary dydd Sul bu Saron, Bethel a'r Eglwys yn cynnal eu gŵyl ac ar y dydd Llun cafwyd gwasanaethau yn y cysegr.



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS
Dosberthir drwy'r fro
HEB UNRHYW DÂL YCHWANEGOL

GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol


CHWARAEON

SAETHU COLOMENNOD CLAI

Yn weddol ddiweddar y daeth y gamp o saethu colomennod clai i'r amlwg yn ardal yr 'Eco'. Er hynny, brysiaf i ddweud mai nid newydd-beth hollol mohono, oherwydd clywais sôn am gystadlaethau saethu colomennod clai yn cael eu cynnal yn yr hen 'gytin' rhwng stâd Bro Rhuddallt a'r hen orsaf rheilffordd yn Llanrug. Sgwn i a oes rhai o'r darllenwyr yn cofio'r cystadlaethau hyn? Ond nid yn Llanrug y cynhaliwyd y cystadlaethau diweddaraf hyn, ond yn y Waunfawr, a hynny, dan nawdd Clwb Daeargwn Eryri.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth gyntaf yn ystod y llynedd ar gae yn perthyn i westy Snowdonia Park, Waunfawr. Bu'n gymaint llwyddiant nes penderfynu cynnal un arall eto eleni. Unwaith eto, cafwyd caniatâd parod i ddefnyddio'r un maes. Yn ffodus, cafwyd tywydd ffafriol ddydd Sadwrn, Hydref 4, a denwyd saethwyr o bob rhan o Wynedd i'r

gystadleuaeth. Rhannwyd yr hanner cant o saethwyr i ddau ddosbarth; nofis ac agored. Y tro hwn, 'roedd y rhan fwyaf o'r saethwyr yn nosbarth y nofis; hynny yw, saethwyr nad oeddynt wedi ennill unrhyw gystadleuaeth o'r blaen. Unwaith yr ennillir cystadleuaeth nofis, yna rhaid i'r saethwr hwnnw ymgeisio yn y dosbarth agored o hynny ymlaen.



Tanio Pump 'i lawr y lein' oedd ar gyfer y nofis, a Thanio Deg 'i lawr y lein' oedd y gystadleuaeth agored. Ystyr tanio 'i lawr y lein' yw fod pob cystadleuydd yn saethu o safle gwahanol mewn llinell o bum postyn wedi eu gosod yn y ddaear. Mae'r trap sy'n hyrddio'r colomennod clai i'r awyr, yn union o flaen y llinell bum postyn hon.

Gellir tanio gyda dau faril y gwn, a chyfrifir hynny'n 'siot'. Os caiff y golomen glai ei tharo o'r faril gyntaf, yna ceir sgôt o un pwynt; os gyda'r ail faril, yna hanner pwynt o sgôt. Ar ôl y 'siot' gyntaf, bydd y cystadleuydd yn symud i'r postyn nesaf yn y llinell, ac felly ymlaen nes tanio pum 'siot' i gyd. Y sgôr uchaf posibl yw 5 pwynt. Mae'r Tanio Deg 'i lawr y lein' yn union yr un fath, ond fod pob saethwr yn cael dwy 'siot' ar bob postyn, gan roi cyfanswm sgôr posibl o 10.

Mae hawl gan y cystadleuwyr

i saethu unrhyw nifer o weithiau; ond rhaid talu am bob rownd wrth gwrs, a dyna sut y gwneir elw. Mae'r saethwyr gyda'r sgôr uchaf ar ôl nifer y rowndiau yn cystadlu'n erbyn ei gilydd yn y rownd derfynol.

Yr enillwyr yn y Waun fawr oedd:

Dosbarth Nofid: 1. N. Parry, Llandudno, 2. J.T. Jones, Llangefni; 3. L. Harris, Y Felinheli.

Dosbarth Agored: 1. C. Roberts, Caernarfon; 2. T. Pierce, Penrhynedraeth; 3. J.H. Jones, Beddgelert.



Tîm Llanberis yn eu dillad newydd wedi eu noddi gan Fodurdy'r Wyddfa



Dyma dîm Cynghair Gwyrfaei, Cwm-y-Glo yn barod i ddechrau'r tymor newydd. Y mae'r dillad newydd o liw melyn a glas yn anrheg i'r clwb gan Mr R.A. Roberts, 'Gwynedd Sports', Caernarfon, ac mae holl aelodau'r clwb pêl-droed am fanteisio ar y cyfle i ddatgan, ac yn wir pwysleisio eu diolchiadau i Mr Roberts am ei garedigrwydd.

Yn y llun gwelir (o'r chwith i'r dde): Rhes gefn: Bryn Evans, Paul Jones, Iestyn Jones, Dylan Owen, Steven Owen, Garry Evans, Dilwyn Morris, Neil Rowlands a Michael Roberts. Rhes Ganol: Michael J. Williams, Gwilym Williams (rheolwr); R.A. Roberts (Gwynedd Sports), Dafydd Price (aelod o'r pwyllgor), Evan Owen (Trysorydd) a Nigel Orrigg. Rhes flaen: Dino Bellini, Gwyn Morris, Kevin W. Owen a Dafydd Jones.

PÊL-DROED

Tabl y Gynhrai:

	Ch.	E.	Cyf	Colli	O Bl	Yn Erb	Pt
Llanberis	12	9	2	1	42	15	20
Llanrug	12	9	2	1	36	12	20
Bethel	13	3	2	8	16	44	8

Gwelwyd cychwyn y Gynghair leuenctid yn ystod y mis diwethaf, gyda thîm Llanberis yn unig i gynrychioli ardal yr 'Eco'. Cawsant gychwyn ardderchog yn erbyn Harlech, ond yna daeth siom yng Nghwpan leuenctid Cymru. Yn y Gynghair hyn, mae Llanberis a Llanrug yn mynd o nerth i nerth, ond cymysg oedd hynt a helynt Bethel.

BETHEL

Mis o ddau hanner fu hi'n hanes Clwb Bethel: colli gartref i'r Felinheli (0-4) ac i Bwllheli (0-6). Yn dilyn y gêm yn erbyn Pwllheli, adroddodd canlynwyr Bethel mai dyma'r tîm gorau iddynt gwrdd y tymor hwn.

Bu ail hanner y mis yn fwy llwyddiannus. Mae'n sicr mai eu gêm orau oedd y fuddugoliaeth yn erbyn Nefyn o 4 gôl i 3. Gêm gyffrous iawn a'r ddau dîm yn bygwth ennill ar wahanol adegau o'r gêm; ond Bethel aeth a hi'n y diwedd gyda gôls gan Brian O'Shaughnessy (2) Maldwyn Hughes, a Harold Owen. Y Sadwrn diwethaf, chwaraewyd gêm ddigon diflas i ffwrdd yn erbyn Nantlle Vale, gyda'r ddau dîm yn methu darganfod y rhwyd.

LLANBERIS

Uchafbwynt y mis i dîm Llanberis oedd eu buddugoliaeth ardderchog yn erbyn Teigrod Porthaethwy yng nghwpan Cyfryngol Cymru. Wedi gêm gyfartal yn Llanberis, teimlai Porthaethwy'n bur hyderus o guro ar eu maes eu hunain, ac yn wir, edrychai popeth ar ben i Llanberis ar un cyfnod oherwydd roeddynt yn colli o 1-3. Ond wedi ymladd dewr, daeth Llanberis yn ôl i'r gêm a chipio'r gêm o afael y Borth gan ennill o 4-3. Y sgorwyr oedd Gwilym Williams, Ray Harding a P. Kasperek.

Yn y gemau Cynghair, parhau i ennill wnaeth Llanberis, gan guro Talsarn o 4-1 a Bethesda o 2-0. Maent bellach ar ben tabl y Gynghair, yr un nifer o bwyntiau â Llanrug, ond wedi sgorio mwy o gôls na hwy.

Yn y Gynghair leuenctid, enillodd Llanberis eu hunig gêm yn erbyn Harlech o 8-2. Y sgorwyr oedd Terence Griffith (3), Ken Griffith (2), ac un gan Iolo Evans, Dewi Roberts a Richard Williams. Yng Nghwpan leuenctid Cymru, colli fu eu hanes yn erbyn Llandudno ar yr ail gynnis.

LLANRUG

Dyma fis llwyddiannus arall i Lanrug, gan ennill pob un o'u gemau, a rhoi rhybudd i dimau eraill y Gogledd eu bod yn bwriadu ail-ennill y Cwpan lau ar ôl ei golli'r tymor diwethaf.

Yn y Gynghair, enillwyd yn erbyn Nantlle (3-0) a Bethesda (2-0) ac yna, daeth y gêm cwpan yn erbyn Betws y Coed o Gynghair Conwy. Mae'n siŵr fod tîm Betws y Coed yn cael hunllef o glywed sôn am Lanrug, oherwydd dyma ail ymweliad y Clwb â Llanrug y tymor hwn. Ar ôl colli mewn gêm gyfeillgar o 17-1, wnaeth newid golgeidwad fawr o wahaniaeth iddynt, oherwydd colli o 10-1 fu eu hanes y tro hwn, gyda Wyn Hughes (3) Len Padmore (2) Ron Evans (2) Dic Owen, Hefin Pritchard a Dafydd Owen yn sgorio. Y Sadwrn diwethaf, ennill eto o 2-1 yn Hiracl i gadw'n dynn wrth sodlau Llanberis.



Mr R.M. Williams, Cadeirydd Cyng-hrai Caernarfon yn cyflwyno Tarian Marconi i Gwilym Williams ar ôl curo tîm Caergybi 2-1.